
www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 495
Tachwedd
2021

# Rhagor o waith ffordd tra'n gosod ceblau




Ar ôl i bawb lawenhau bod y trafferthion traffig yng Nghwm-y-Glo wedi gorffen, cawsom wybod y bydd gwaith newydd yn cychwyn ddiwedd Tachwedd wrth i'r Grid Cenedlaethol gychwyn gosod ceblau cario trydan.

Mae'r Grid Cenedlaethol eisoes wedi rhannu gwybodaeth drwy daflenni i gartrefi lleol fydd yn cael eu heffeithio, ond trowch at dudalen 4 am ragor o wybodaeth.



## Yn y rhifyn hwn:


- Ceblau newydd y Grid – **tud 4**
- Dathlu cyhoeddi rhifyn 500 o'r Eco – **tud 12**
- Argraffiadau cynghorydd newydd – **tud 8**
- Deg y Dysgwyr – **tud 19**
- Nofio gyda'r sêr – **tud 31**


Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



30

8



15



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel:**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Gwenllian Carr, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Rhagfyr | 12 Tachwedd | 26 Tachwedd |
| Ionawr | 3 Rhagfyr (**sylwer ei fod yn gynt**) | 17 Rhagfyr (**sylwer ei fod yn gynt**) |
| Chwefror | 14 Ionawr | 28 Ionawr |

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£10 Alwyn a Nia Jones, Y Dderwen, Rhos Bach, Caeathro
Ellen a Gwynfor Ellis, Drws y Coed, Bethel

£20 Er cof am Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis ac hefyd Dewi (bach) Roberts, 12 Dol Elidir, Llanberis - rhodd gan Derek, Delyth a'r teulu a Kenny a'r teulu.

£25 Er cof am Diana Pritchard, 11 Ceunant Street, Llanberis, oddi wrth Avril, John a Gwyneth.

## Llythyrau

Helo a chroeso i rifyn mis Tachwedd Eco'r Wyddfa; dyma rifyn lliwgar a diddorol arall i chi – diolch i'r cyfranwyr; gobeithio y bydd yn eich llonni yn y mis gaeafol, oer yma.

Stori fawr Dyffryn Peris y mis yma yw gwaith gosod ceblau Grid Cenedlaethol sydd ar y gweill rhwng Llanberis a Phentir a fydd yn aflonyddu ffyrdd lleol am sawl blwyddyn yn anffodus iawn. Gyda chiwiau y gwaith ffordd diwethaf rhwng Cwm-y-glo a Phen-Llyn yn dal yn fyw yn y cof, mae'n bryder a diflastod mawr meddwl fod mwy o'r un peth o'n blaenau.

Yn dilyn ein galwad fis diwetha yn holi am wirfoddolwyr i ymuno â'r criw golygyddol, chawson ni ddim un ymholiad! Na phoener, does dim dyddiad cau i'r gwahoddiad yma, mae croeso i unrhyw un gysylltu; ebostiwch ecorwyddfa@gmail.com!

Yn fwy pryderus, chawson ni neb yn gwirfoddoli i gasglu newyddion pentref Llanrug; fe fydden ni'n gwerthfawrogi'n fawr petai rhywun (neu fwy nag un hyd yn oed) yn cymryd y rôl hon ar fyrder os gwelwch chi'n dda.

***Criw Golygyddol Eco'r Wyddfa***

# Digwyddiadau Merched y Wawr yn Genedlaethol

Dyma gyfle i chi ymuno â gweithgareddau hwyliog yn rhithiol wedi eu trefnu gan Ferched y Wawr yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

Bydd angen trefnu tocyn o flaen llaw, felly am fwy o wybodaeth cysylltwch â swyddfa@merchedywawr.cymru

| | Amser | Digwyddiadau Rhithiol |
|---|---|---|
| 6ed Tachwedd | 10.00 AM | Cwrs Crefft Eleri Jones |
| 12fed Tachwedd | 8.00 PM | Cwis Hwyl Cenedlaethol – Yr Atebion a Chanlyniadau! |
| 20fed Tachwedd | 10.00 AM | Cwrs Crefft Esyllt Jones - Câs nodwyddau |
| 22ain Tachwedd | 7.00 PM | Ffair Nadolig – Bwyd a Diod |
| 23ain Tachwedd | 7.00 PM | Ffair Nadolig – Crefftau ac Addurniadau |
| 29ain/30ain Tachwedd | Ffair Aeaf yn Llanelwedd neu'n Rhithiol | |
| 4ydd Rhagfyr | 10.00 AM | Cwrs Crefft Aeres James – Seren Nadolig o bapur |



## Yn ystod y mis aeth heibio...

- **Gwas y Neidr** – Mae'r creadur bach lliwgar yn mudo i'r gogledd. Dyna'r darogan gan Gymdeithas Brydeinig Gwas y Neidr, a hynny oherwydd bod y tymheredd ym Mhrydain yn cynhesu.
- **El Salvador** – Dyma'r wlad gyntaf yn y byd i gydnabod Bitcoin fel arian cyfreithlon. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno gwerth tua £20 o'r arian i bob person yn y wlad i nodi'r achlysur.
- **Addysg Prifysgol** – Mae 272,500 o fyfyrwyr wedi cychwyn ar gwrs prifysgol eleni; y nifer uchaf erioed.
- **Abba** – Mae'r grŵp pop oedd mor boblogaidd tua'r amser y gwelodd yr "Eco" olau dydd am y tro cyntaf, wedi derbyn 80,000 o archebion o fewn tri diwrnod am eu record gyntaf ers deugain mlynedd.
- **Coed** – Redwood yw'r coed talaf yn y byd, ond sequoia yw'r rhai mwyaf, ac y mae blancedi aliwminiwm yn cael eu lapio amdanynt yng ngorllewin America i'w harbed rhag tân. Yn eu plith mae 'General Sherman' ym Mharc Cenedlaethol Sequoia, California – y goeden fwyaf yn y byd. Credir fod rhai o'r coed sequoia hyn yno ers 3,000 o flynyddoedd.
- **Ffliw moch** – Mae'r afiechyd wedi dod i'r amlwg yn yr Almaen, ac mae eu cymdogion, Denmarc, yn hynod bryderus. Mae 90% o gig moch Denmarc yn cael ei allforio i 140 o wledydd, ac mae'n werth 5% o holl allforion y wlad. Pe bai'r ffliw yn cael ei ddarganfod yn y wlad, byddai'n golygu colled o rai biliynau o arian.
- **Adar marw** – Mae rhai cannoedd o adar mudol wedi marw yn Efrog Newydd, a hynny oherwydd iddynt hedfan yn erbyn ffenestri adeiladau talaf y ddinas. Mae'r grŵp amgylcheddol 'New York Audubon' yn credu mai stormydd anhymhorol sydd wedi achosi i'r adar hedfan yn is nag arfer.
- **Cregyn gleision** – Mae'r tywydd poeth a achosodd i dân sgubo drwy goedwigoedd Gwlad Groeg wedi difetha cynhaeaf cregyn gleision y wlad. Mae tunnelli o gregyn gwag wedi eu cynaeafu o amgylch arfordir y wlad; colled ariannol enfawr i bysgotwyr y wlad sy'n allforio'r mwyafrif o'u cynnyrch.
- **Ceiniogau** – Yn ystod 2020 cafodd 88 miliwn o geiniogau eu bathu gan y Mint Brenhinol; y tro cyntaf ers 2017 i geiniogau gael eu bathu.
- **Priodas** – Am y tro cyntaf ers dros ganrif bu priodas 'frenhinol' yn Rwsia pan gynhaliwyd y seremoni yn Eglwys Gadeiriol Sant Isaac, St Petersburg. Roedd y priodfab, o deulu'r Romanov, yn priodi merch o'r Eidal.
- **Iechyd meddwl** – Mae ymchwil diweddar yn dangos fod disgyblion ysgol sy'n bwyta pump neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd yn llai tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl.
- **Darlun anferth** – Mae'r darlun mwyaf erioed i'w beintio ym Mhrydain wedi ei leoli yn Ainsdale ger Lerpwl, ac yn dangos madfallod y tywod, creaduriaid prin sydd i'w canfod ar arfordir Sefton. Defnyddiodd yr arlunydd, Paul Curtis, 330 litr o baent a 42 can o baent i'w chwistrellu.
- **James Bond** – Dangosodd arolwg mai Sean Connery oedd yr actor mwyaf poblogaidd i gymryd y rhan. Enillodd 33% o'r bleidlais, gyda Daniel Craig yn ail gyda 31%.
- **Bae Cinmel** – Dyma'r pedwerydd lle ar hugain mwyaf poblogaidd ym Mhrydain i fynd â'r ci am dro, yn ôl arolwg gan gwmni gwerthu bwydydd anifeiliaid anwes.

# Gemau Plant




Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

# Un funud fach …

## DAIL

Gan nad wyf fardd wnaf fi ddim honni i mi glywed 'dail y coed yn murmur yn yr awel' fel y canodd T Gwynn Jones am Abaty Ystrad Fflur ganrif yn ôl. Ond yr hydref hwn eto fedraf fi ddim peidio â rhyfeddu at wyrth flynyddol y melyn a'r oren a'r brown a'r coch. Oes yna dymor cyn brydferthed â hwn, a chwymp anochel y dail yn esgor ar garpen o goeden uwchben ac ar garped o liwiau dan draed? Ac eto, wrth i flagur ac irder a bywyd ildio'u lle i grinder a phydredd ac angau nid murmur yn yr awel ond griddfan yn y storm a wna dail y llawr. A phwy all eu beio, â'u hegni a'u harddwch wedi mynd â'u gadael?

Dyw'r darlun o ddeilen ir ddim yn ddieithr i'r Beibl. Dywed y Salm gyntaf fod y person duwiol 'fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo' (1:3). Yr un peth a ddywed Duw ei hun am yr un sy'n ymddiried ynddo: 'Y mae fel pren a blannwyd ar lan dyfroedd, yn gwthio'i wreiddiau i'r afon, heb ofni gwres pan ddaw, a'i ddail yn ir; ar dymor sych ni phrydera, ac ni phaid â ffrwytho' (Jeremeia 17:8). Mae'r ddeilen ir llawn bywyd yn ddarlun trawiadol o aeddfedrwydd egni a brwdfrydedd y sawl sy'n parchu a charu Duw ac yn ymroi i fyw i'w wasanaethu a'i glodfori.

Dyw'r darlun o ddeilen grin ddim yn ddieithr chwaith. I Eseia, mae honno'n ddarlun o bobl yn eu gwrthryfel yn erbyn Duw: 'Aethom i gyd fel peth aflan, a'n holl gyfiawnderau fel clytiau budron; yr ydym i gyd wedi crino fel deilen, a'n camweddau yn ein chwythu i ffwrdd fel y gwynt. Ac nid oes neb yn galw ar dy enw, nac yn trafferthu i afael ynot' (Eseia 64:6-7). Trueni pethau ydi ein bod yng ngolwg Duw'n debycach i'r ddeilen sy'n fudr a slwt ar lawr nag i'r ddeilen hardd ar frig y goeden. A'r un yw'r darlun yn nisgrifiad Duw o'i bobl anufudd ac anffyddlon: '"Pan gasglwn hwy," medd yr Arglwydd, "nid oedd grawnwin ar y gwinwydd, na ffigys ar y ffigysbren; gwywodd y ddeilen, aeth heibio yr hyn a roddais iddynt"' (Jeremeia 8:13).


Byddwn i, fel pawb â chanddynt y gronyn lleiaf o barch at Dduw, yn hoffi meddwl mai'r ddeilen grin yw'r darlun sy'n gweddu i mi. Ond fel arall y mae yn aml. Heb os, rwy'n fy ngweld fy hunan yn neilen wywedig a chrin y proffwydi yn fy methiant i garu Duw a bod yn ffyddlon i'w air a'i alwad. Ond trwy ras, a dim ond trwy ras cofiwch, mae ynof fi hefyd, fel ym mhob un a gredodd erioed yn yr Arglwydd Iesu Grist, rywbeth o'r ddeilen ir yn yr awydd a roddwyd i mi i blygu gerbron Duw mewn addoliad a pharch ac ufudd-dod calon.

A chydag Ann Griffiths, meddwn innau:

"Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw,
yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy'."

**JOHN PRITCHARD**

# Ceblau newydd y Grid




Mae'r Grid Cenedlaethol ar gychwyn adnewyddu'r ceblau tanddaearol sy'n cario trydan o Bwerdy Dinorwig i is-orsaf Pentir. Mae'r ddau gebl presennol yn rhedeg dan Reilffordd Llyn Padarn i Ben Llyn, gyda'r naill yn dilyn y briffordd i Bentir a'r llall yn rhedeg i is-orsaf drydan ar Lôn Stabla ac oddi yno i Bentir dros beilonau.

Gan fod rhaid cynhyrchu trydan yn ystod y gwaith ni fydd modd codi'r ceblau presennol cyn gosod rhai newydd. Nid oes lle i'r hen a'r newydd dan y Rheilffordd, ac felly gosodir y ceblau newydd dan y briffordd o Lanberis i Gwm-y-Glo; y naill at Llwyncoed cyn dilyn y briffordd i Bentir, a'r llall hyd at Gwm-y-Glo a thros y caeau i Stabla. Ni fyddant yn amharu ar gylchfan newydd Cwm-y-Glo.

Wedi gosod y ddau gebl (tua diwedd 2025) caiff y ceblau presennol eu codi, a gosodir trydydd cebl yn eu lle. Bydd y Rheilffordd yn cau am oddeutu 13 i 14 mis.

Yn naturiol, gan fod y gwaith ar y lonydd i bara hyd hydref 2025 a'r prosiect cyfan hyd 2027 mae cryn bryder yn lleol ynghylch y problemau traffig posibl, a hynny'n ddealledig wedi'r tagfeydd a gafwyd wrth adeiladu'r gylchfan newydd. Rhaid canmol y Grid am rannu gwybodaeth am y gwaith â phobl yr ardal er mai amwys braidd fu'r sôn am "darfu cyn lleied ag y bo modd ar y ffordd" a'r angen am oleuadau traffig "weithiau".

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd i'r *Eco* ddydd Mawrth, Hydref 19:

Dechreuir gosod dwythellau ('*ducts*') ar gyfer y ceblau dan y briffordd o Lanberis i Gwm-y-Glo ddiwedd Tachwedd. Bydd y gwaith yn para tan hydref 2022. Ni allai'r cwmni ddweud a oedd 'hydref' yn golygu dechrau Medi neu ddiwedd Tachwedd.

Bydd dau griw yn gweithio'r un pryd, ar ddau ddarn o'r lôn, oddeutu cilomedr oddi wrth ei gilydd. Bydd hynny'n prysuro'r gwaith, ond yn golygu bod dau set o oleuadau traffig. Rhagwelir amser aros o 4 i 5 munud wrth olau coch yn y naill a'r llall.

Bydd y gwaith rhwng 7.30 AM a 5.00 PM o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond bydd y goleuadau traffig yno 24 awr y dydd, bob dydd o'r wythnos.

Caiff rhan o ffordd osgoi Llanberis ei chau am oddeutu mis o Chwefror 2022 er mwyn gosod y dwythellau yng nghanol y lôn am fod gwasanaethau eraill bob ochr.

Ni fydd gwaith ar y ffordd dros y Nadolig (tua 3 wythnos) a'r Pasg (pythefnos) a thymor prysur yr haf (er na chaed cadarnhad o'r union ddyddiadau) a gwyliau'r banc. Bydd y ffordd yn glir o rwystrau'r adegau hynny.

Bydd y gwaith ar y lôn o Frynrefail i Bentir yn cychwyn fis Chwefror 2022 ac yn para deunaw mis, tan hydref 2023.

Rhwng hydref 2023 a hydref 2025 bydd y ceblau yn cael eu gosod trwy'r dwythellau. Bydd hynny'n golygu cyfnodau byrion pellach o reoli traffig.

Un cysur o gofio'r tagfeydd traffig wrth adeiladu'r gylchfan newydd yw mai traffig o ddau gyfeiriad (nid tri) a reolir yn ystod y gwaith hwn. Cysur arall, o gofio'r wythnosau o oleuadau traffig a gaed ar rannau o'r ffordd o Frynrefail i Bentir, yw na ddefnyddir eto olew i oeri'r ceblau yn y dwythellau. Golyga hynny, yn ôl y Grid Cenedlaethol, mai ychydig o waith cynnal a chadw fydd ei angen fel na fydd raid cau'r ffyrdd yn aml dros oes y ceblau.


# Cyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd 2022

Mae Eisteddfod yr Urdd yn falch o gyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022.

Mae'r rhestr yn amrywio o gystadlaethau llwyfan a chyfansoddi i blant a phobl ifanc o dan 25 oed, a ddewiswyd gan banelau lleol a gwirfoddolwyr o Sir Ddinbych, wedi hir ymaros o ganlyniad i'r pandemig. Gellir lawrlwytho Rhestr Testunau 2022 a rheolau cystadlu yn rhad ac am ddim oddi ar - www.urdd.cymru

Bydd cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn agor ar 1 Rhagfyr 2021 ac yn cau ar 14 Chwefror 2022. Bydd cystadlaethau amgen Rhestr T yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn, yn dilyn llwyddiant gŵyl ddigidol Eisteddfod T.

Gobaith y mudiad yw cynnal Eisteddfod yr Urdd 2022 yn Sir Ddinbych yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.




## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9:30 AM. Hefyd, mae gwasanaeth bob bore Mawrth am 11 AM. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Sadwrn, 27 Tachwedd gan ddechrau am 10 AM.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Meirion Wyn Pritchard, Tŷ Isaf a fu farw yn 89 mlwydd oed ar 27 Medi. Roedd wedi ei eni a'i fagu yn y Nant ac wedi byw a ffermio yma ar hyd ei oes. Roedd yn gymeriad poblogaidd a hwyliog, a chanddo gylch eang o gydnabod a ffrindiau. Cydymdeimlwn â'i briod Rhian a'u plant, John, Hefin, Dafydd a Helen a'u teuluoedd, a'i chwaer yng nghyfraith Carys yn eu colled. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, 8 Hydref dan arweiniad y Parchg John Pritchard, a chafwyd teyrnged ar ran y teulu gan ei wyres Gwenno. (Gol.)

Er cof am Meirion Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris
Hel i'w gôl wnaeth Bugail gwell, – huno wna
yn un â'r ddiadell.
I'w lwch, Ceunant fydd fantell,
nid yw Mei yn mynd ymhell.

**Richard Llwyd Jones**

## CAEATHRO

**Capel**
Ar 21ain Tachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Bonheddwr Arwel Williams am 2.00 PM. Ar 28ain Tachwedd, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Elwyn Williams am 2.00 PM.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf i Alwyn a Nia Jones (Y Dderwen, Rhos Bach) yn dilyn ei brofedigaeth o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar, a hefyd i Leti (Yr Efail) wedi iddi hithau hefyd golli ei chwaer yn ddiweddar.

**Cymdeithas Cae Chwarae – Cyfarfod Blynyddol 2021**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar nos Lun, 18fed Hydref yng Nghanolfan y Capel i gychwyn am 8.15 PM. Croeso cynnes i unrhyw un o drigolion Caeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau. Os oes gan unrhyw un eitem i'r Agenda, hoffem pe baech yn cysylltu gyda Hefin Hughes (Cefn y Gof). Byddem yn falch o weld aelodau newydd i'r Pwyllgor ar y noson.

**Diolch**
Dymuna Alwyn a Nia Jones (Y Dderwen, Rhos Bach) estyn eu diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli Cathrin Thomas, Llangian. Chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb oedd gyda'r wên siriolaf un. Gwerthfawrogir eich haelioni, yr holl gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd er cof am Cathrin tuag at Gronfa Nyrsys Cymunedol Botwnnog.

**Diolch Marcus**
Ar ddydd Sul, 3ydd Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghanolfan y Capel dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Dyma'r tro diwethaf i Marcus arwain Gwasanaeth fel Gweinidog y Capel gydag yntau yn ymddeol ddiwedd Hydref eleni. Mae Marcus wedi bod yn Weinidog yng Nghaeathro ers 2009 – ers sefydlu'r Capel, ef felly yw'r Gweinidog sydd gyda'r trydydd cyfnod hiraf fel arweinydd yr achos. Yn ei bregeth, bu i Marcus siarad am bwysigrwydd llawenydd, gwerthfawrogiad, chwerthin a diolch mewn bywyd. Dyma'r rhinweddau y byddwn ni yma yng Nghaeathro yn ei gofio am Marcus a'i gyfnod fel Gweinidog yma. Cafodd darlun (gwawdlun) ei gomisiynu i'w gyflwyno i Marcus fel arwydd o werthfawrogiad ei wasanaeth i'r Capel ac i'r pentref – gallwch weld o'r llun sut y mae'r artist wedi llwyddo i gyfleu hiwmor a chymeriad Marcus mor dda! Wedi'r Gwasanaeth, cafwyd cyfle anffurfiol i ddiolch dros baned a



chacen – heb anghofio, wrth gwrs, mins pei neu ddwy! Diolch o galon a mwynhewch eich ymddeoliad. Peidiwch a bod yn ddiarth a chofiwch fod wastad croeso i chi yma yn y pentref.



**Llenyddol**
Llongyfarchiadau i Dafydd Williams, Parc y Wern ar ennill cystadleuaeth yr englyn yng nghylchgrawn Barddas. Gosododd y beirniad Rhys Dafis y testun 'Unrhyw Declyn'. Mewn cystadleuaeth gref, englyn Dafydd i'r Ffôn Boced ddaeth i'r brig.

Y Ffôn Boced
Gan fod hylltod o wybodaeth – yn rhad
yn ei rhwydwaith helaeth,
y mae'r byd i gyd yn gaeth
yn y we a'i saerniaeth

Cipiodd Richard Llwyd Jones gadair Y Tymbl, Cwm Gwendraeth am yr ail dro, wedi ei hennill y tro cyntaf ddeng mlynedd yn ôl. Roedd 16 wedi cystadlu ar y testun 'Chwilio'. Roedd y beirniad y Prifardd Aneurin Karadog yn canmol yr awdl, ac hefyd safon uchel y gystadleuaeth.

Bydd y ddau yn aelodau o dîm Llanrug ar gyfer y gyfres nesaf o Dalwrn y Beirdd.

**Blaenoriaid Newydd**
Yn dilyn pleidlais yn ddiweddar codwyd Myfanwy Harper (Glan Gors gynt) a Dewi Rowlands yn flaenoriaid yng Nghapel y Cysegr. Diolch iddynt am eu parodrwydd i sefyll ar gyfnod heriol yn dilyn ymddeoliad y Parch.




Marcus Robinson. Mae'r ddau eisoes wedi eu sefydlu mewn eisteddiad o Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Abergwyngregyn. Mae Myfanwy eisoes wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r Cysegr fel Athrawes a Goruchwyliwr yr Ysgol Sul. Mae hi hefyd mewn olyniaeth yn dilyn ei thad Goronwy Jones i'r Sêt Fawr.

**Oedfaon Tachwedd**
**Capel Saron (1.30 PM)**: 7/11, 14/11 Glyn Owen; 21/11 Cyfarfod y Plant; 28/11 Parch. Richard Gillion.
**Capel y Cysegr (10.00 AM)**: 7/11 Parch. Huw Pritchard; 14/7 Sul y Cofio; 21/7 Dorothy Williams; 28/7
**Capel Bethel (10.00 AM):** 7/11 Parch. Huw Pritchard (11.00 AM) 14/7 Sul y Cofio; 14/7 Parch. Emyr Rowlands; 28/7 Arwel Roberts.

**Difrod**
Trist iawn yw tynnu sylw at y difrod a wnaethpwyd i un o'r ddwy fainc a osodwyd gan y Cyngor Cymuned yn y Cae Chwarae i ddathlu'r Milflwydd. Achoswyd yr un fath o ddifrod i'r un fainc chwe mis yn ôl. Wedi ymchwilio darganfuwyd fod y difrod yn waeth y tro hwn ac mai annhebyg yw y gellir adnewyddu'r fainc. Bydd y Cyngor bellach yn trafod os eir ymlaen i ail osod mainc yno. Ar y mis ble mae'r Cyngor unwaith eto yn hael eu rhoddion i'r mudiadau/clybiau a wnaeth gais fod hyn yn cael ei osod yn gyfochrog a bil am adnewyddu os bydd angen.



**Plesio**
Mae'n amlwg fod yr Eco ar ei 'newydd wedd' yn plesio gan fod y gwerthiant yma ym Methel wedi cynyddu. Os ydych yn gwybod am rywun sydd eisiau cael copi yn fisol gadewch i mi wybod – bargen am £10 y flwyddyn. Gyda llaw i'ch atgoffa ddarllenwyr ffyddlon na fydd angen taliad gennych tan y taliad blynyddol mis Mawrth nesaf. Cofiwch hefyd fod copïau ar werth yng Nghaffi Perthyn.

**Gwasanaeth Sul y Cofio**
Fel y llynedd ni fydd gwasanaeth torfol yn cael ei gynnal ger y gofeb, ar libart yr Ysgol ar Sul y Cofio (14eg Tachwedd). Fel y llynedd bydd disgyblion yr Ysgol dan arweiniad Dylan Parry yn llunio gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth yn ymddangos ar dudalen Facebook yr Ysgol ac hefyd ar wefan Bethel Ddoe a Heddiw. Diolch iddynt ymlaen llaw am eu parodrwydd. Fe fydd cyfle i unrhyw unigolyn neu fudiad osod torch ger y gofeb dros gyfnod y Cofio.

**Rhoddion y Cyngor Cymuned**
Yn y cyfarfod mis Hydref dosrannwyd y symiau canlynol mewn ymateb i'r ceisiadau ddaeth o Fethel.

Clwb Bowlio Dan-do £200, Eisteddfod Bethel £300, Clwb Pêl-droed Ieuenctid £300.

Fel rhan o brosiect gan y Cyngor Cymuned mae bwriad i gefnogi yr ysgolion cynradd lleol sy'n bwrw mlaen yn hybu gweithgareddau garddio fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r elfen yma o astudiaeth wedi hen fagu gwreiddiau yn Ysgol Bethel. Felly, rhoddwyd cyfraniad o £300 i gefnogi'r gwaith. Prawf o lwyddiant y plant yn y maes yma oedd y stondin gwerthiant cynnyrch a gynhaliwyd yn ddiweddar.

**Ymddiheuriad**
Bachaf ar y cyfle i ymddiheuro I Sion HUGHES nid Evans – y pysgotwr dawnus y soniwyd amdano yn y rhifyn diwethaf. A minnau wedi dysgu ei dad sawl blwyddyn yn ôl bellach!

**Eisteddfod Bethel**
Fel byddwch yn derbyn y rhifyn yma o'r Eco bydd dyddiad cau derbyn ymdrechion ar gyfer Eisteddfod Bethel yn agosáu. Eleni, i gynnal y traddodiad, fe gynhelir yr Eisteddfod yn rhithiol. Mae sawl un wedi cystadlu ac fe gasglwyd y cynhyrchion yn ddigidol. Yn ystod y mis nesaf bydd beirniadu ar y gwaith ac fe gynhyrchir ffilm o'r ymgeiswyr buddugol i'w rannu gyda'r rhieni. Er mwyn hwyluso'r drefn eleni, roedd testunau y cystadlaethau i gyd yn hunan-ddewisiad. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r 'noddwyr' selog eto eleni, ac i'r nifer fu yn hyfforddi y plant. Fel ardalwyr rydym yn hynod ddiolchgar i'r pwyllgor am eu menter yn cynnal y traddodiad dan amgylchiadau anodd. Diolch


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

**GRŴP CERDDED**

Gwnaed sawl cyfeiriad yn ystod y Cyfnod Clo am y cynnydd yn y sawl oedd yn cerdded llwybrau a ffyrdd y fro. Mae'r cerddediad o Fethel ar hyd y llwybr 'newydd' i groeslon Tyddyn Hen eisoes yn boblogaidd. Yn ddiweddar daeth rhai o'r pentrefwyr at ei gilydd i ffurfio grŵp cerdded anffurfiol. Gallwch ddilyn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ar wefan Bethel Ddoe a Heddiw. Eisoes mae dwy daith gerdded wedi cymryd lle. Y bwriad pob tro yw darganfod man cyfleus i barcio ac yna cyflawni cylchdaith o'r fan honno. Daeth 15 ynghyd ar gyfer y daith gerdded gyntaf. Y man ymgynnull oedd Tafarn y Garddfon yn y Felinheli ac yna cerdded llwybr y Faenol hyd lannau'r Fenai. Cafwyd bore braf i gerdded a chymdeithasu.

Ar gyfer yr ail daith (pythefnos yn ddiweddarach) y man cyfarfod oedd Pen-Llyn, Brynrefail. Yna cerdded drwy Glwt-y-Bont i fyny i'r *lodge* (Yr Hen Ysgol) yn Ninorwig ble cafwyd cyfle am baned. Mae croeso i chwi ymuno â'r criw, a'r gobaith yw y gallaf gyhoeddi lleoliadau y cerdded yn fisol yn yr Eco.



hefyd i'r llu cystadleuwyr. Gobeithio cawn adroddiad o'r gweithgareddau yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

**Llongyfarchiadau**

I Alwyn ac Anwen, Bro Dawel ar ddod yn daid a nain i Erin, merch fach Bethan a Graham.

**Cofion**

Mae ambell un wedi cael pwl o salwch yn ddiweddar, gan ein hatgoffa nad yw'r Covid-19 wedi diflannu o bell ffordd a bod dal angen i ddilyn y cyfarwyddiadau penodol. Danfonwn ein cofion at Morlais Williams. Yr un modd i'r nifer cynyddol o bentrefwyr sydd bellach yn preswylio mewn gwahanol Gartrefi Gwarchod. Cydymdeimlwn â Margaret Druce a'r teulu. Bu i Margaret golli ei brawd oedd yn trigo yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

**Diolch**

Dymuna Ellen, Gwynfor a'r teulu Drws y Coed gydnabod pob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb arbennig iawn sef y diweddar Cathrin Thomas, Llangian, Llŷn. Gwerthfawrogwyd y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Cathrin tuag at Gronfa Nyrsys Cymunedol Botwnnog.

**Adran Pentref yr Urdd**

Gobeithio fod pawb o flynyddoedd ysgol 2 – 6 bellach wedi cael cyfle i ymaelodi â'r Urdd eleni. Os bydd rheolau Covid-19 yn caniatau, y bwriad yw cynnal y cyfarfod cyntaf ar Nos Wener, 12fed Tachwedd, am 6.00 PM yn y Neuadd Goffa. Noson gymdeithasol i groesawu aelodau hen a newydd fydd hon. Bydd yr Adran yn cyfarfod unwaith y mis o hynny ymlaen. Dyddiadau a rhaglen y tymor i ddilyn. Diolch i Menna Williams am y wybodaeth, a dymuniadau gorau i'r Adran yn enwedig gan fod argoel o gynnal y brif Eisteddfod yn yr awyr agored yn Ninbych yn 2022.

**Ymddeoliad**

Erbyn i chwi dderbyn y rhifyn yma bydd gwasanaeth 'gollwng' y Parch. Marcus Robinson o ofalaeth Glannau'r Saint wedi ei gynnal. Hefyd bydd wedi cynnal ei oedfa olaf yn y Cysegr, sef oedfa'r Cymun ar 24ain Hydref. Gobeithiaf gynnwys adroddiad estynedig o'r ddau gyfarfod yn rhifyn nesaf yr Eco.

**Merched y Wawr Bethel**

Croesawodd Anne Elis, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod yn y Neuadd ar nos Fercher 13eg Hydref .

Anfonwyd dymuniadau gorau i Mair Williams oedd yn mynd i Ysbyty Gwynedd drannoeth am lawdriniaeth. Gobeithiwn y gwelwn Mair fis nesaf ar ôl iddi gael y ben-glin newydd.

Anfonwn ein cofion at Alys Jones sydd wedi brifo ei phen-glin ac wedi methu'r cyfarfod yn dilyn hynny.

Braf oedd clywed fod Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, yn mendio a'i bod wedi ymaelodi eto eleni gan obeithio dod i'r cyfarfodydd yn y gwanwyn.

Dymuniadau gorau hefyd i fab Gwyneth Jones, Y Fachell. Ar ôl gorfod canslo fwy nag unwaith, mae Dafydd yn priodi Kim y mis yma ym Mhortmeirion.

Llongyfarchiadau i Eleri Warrington ar ddod yn nain eto. Croeso mawr i Alys Mai, merch fach Dafydd a Vicky.

Llongyfarchiadau i Begw Elain, wyres Eryl Roberts, am ddod yn ail yn yr Eisteddfod Amgen am adrodd.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Rita Dauncey Williams.

Dymunwyd yn dda i Dewi, gŵr Nan Rowlands, sydd wedi ei godi yn flaenor yn Y Cysegr. Dymuniadau da i Myfanwy Harper hefyd a gafodd ei chodi yn flaenor yn yr un cyfarfod.

Cydymdeimlwyd ag Ellen Ellis ar golli ei chwaer yn ddiweddar, ac roedd Ellen wedi anfon neges i ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.

Anfonwyd cofion at Nora Parry a'i gŵr Wil sydd wedi cael y Covid-19. Clywsom fod Wil yn yr ysbyty gyda'r salwch ond ei fod yn dechrau gwella.

Dosbarthwyd bwydlen ar gyfer ein Cinio Nadolig yn Perthyn a gofynnwyd i bawb ddod a'u dewisiadau a'r arian mewn amlen i'r cyfarfod nesaf ar Dachwedd 10fed.

Mae manylion y Cwis Hwyl Merched y Wawr wedi cyrraedd. Gallwch ei wneud ar-lein neu gallwch ofyn am gopi caled. Bydd angen cwblhau'r cwis erbyn 4ydd Tachwedd a bydd noson Zoom ar 12fed Tachwedd i roi'r atebion a'r canlyniadau.

Aethon ymlaen i fwynhau creu Blodau Gobaith. Roedd grŵp Rhian Hughes ac Anwylyd Jones yn creu blodau o ffelt; grŵp Mair Read yn creu blodau wrth grosio a grŵp Valmai Owen yn gweu eu blodau. Diolchwyd i'r pedair am rannu eu doniau gyda'r aelodau. Roedd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn ystod y gweithgareddau, a bydd Anne Elis ein Llywydd yn trosglwyddo'r blodau i Aberystwyth iddynt gael eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron flwyddyn nesaf.

Diolchwyd i Mary Evans am roi'r raffl a enillwyd gan Eryl Roberts.

Yn ein cyfarfod nesaf ar 10fed Tachwedd bydd Llinos Angharad yn trafod addurno teisennau, ac mae sôn y bydd yna gystadleuaeth fach yn ystod y noson. Edrychwn ymlaen i'r Bethel '*Bake Off*'!



# Argraffiadau Cynghorydd newydd wedi chwe mis...

Chwe mis yn ôl, etholwyd y Cynghorydd Plaid Cymru dros Lanrug, **Beca Brown** i'r Cyngor Sir. Y cwestiwn mawr ydi a fyddai hi'n annog eraill i'r swydd?

Yn ôl y Cynghorydd Beca Brown: "Mi fyddwn i'n bendant yn annog rhywun i sefyll fel ymgeisydd Cyngor Sir. Y ddelwedd o waith cynghorydd ydi problemau traffig, baw ci, trafferthion parcio, ac wrth gwrs bod elfen o hynny. Efallai nad ydyn nhw'n swnio'n bynciau cynhyrfus, ond mae'r amgylchedd sydd ar ein stepan drws a pha mor iach ac apelgar ydi honno'n dylanwadu ar ein hagwedd tuag at yr amgylchedd ehangach a'n hunan-les fel unigolion ac fel cymuned.

"Ers y Cyfnod Clo rydan ni wedi troedio'n milltir sgwâr fwy nag erioed o'r blaen, ac mae gweld diddordeb pobol yn yr hyn sydd wrth eu traed yn beth calonogol. Mae'r ffaith mod i'n gallu chwarae rôl i geisio lliniaru neu gynorthwyo pobl i oresgyn trafferthion neu bryderon yn gwneud hi'n joban coblyn o werthfawr."

I Beca sy'n gweithio fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu i SaySomethinginWelsh ac sy'n fam sengl i ddau, roedd y ffaith ei bod hi'n Gynghorydd Cymuned yn barod yn help garw i'w chyflwyno i rôl Cynghorydd Sir.

"Mae gen ti syniad o'r rôl oherwydd dy fod yn rhan o'r Cyngor Cymuned sy'n bwydo mewn i waith y Cyngor Sir. A rŵan bod gen i droed yn y ddau le, mae'r gallu i bontio'r ddau sefydliad a chydweithio ar bethau'n gwneud y gwaith yn llawer rhwyddach."

Y gyfrinach fwyaf i'r rôl newydd, yn ôl Beca, ydi bod yn drefnus.

"Gan ei bod hi mor rhwydd cael gafael ar bobl rŵan oherwydd technoleg, mae'n rhaid i mi fod yn drefnus. Gall pobl gysylltu efo fi trwy tua 12 o wahanol ffyrdd, rhwng fy nghyfrifon ebyst, Facebook, Twitter, ffonau ac ati. Ac mi alla'i fod wrth fy ngwaith, mewn cyfarfod Zoom neu'n danfon un o'r plant i ryw weithgaredd, pan ddaw neges i mi. Felly, mae gen i restrau o bobl sydd wedi cysylltu â mi ac ar ba blatfform, ac yna rhestr weithredu sy'n nodi sut mae ymholiadau'n datblygu. Mae 'na nifer o bynciau sydd angen ymchwil, adnoddau a chydweithio i'w datrys a dydi hynny ddim yn digwydd dros nos."

Mae'r gwaith roedd Beca yn ei wneud gyda'r cynllun bwyd FareShare yn Llanrug wedi cynyddu ers ei hethol i'r rôl cynghorydd: "Dwi'n falch o allu cynorthwyo mwy ar fy nghyd-gynghorydd yng Nghwm-y-glo, **Berwyn Parry Jones**, wrth gasglu'r bwyd o Fangor a'i ddosbarthu nôl yma yn Llanrug erbyn hyn. Y tristwch yw bod angen i ni gynorthwyo pobl i fwydo eu hunain a'u teuluoedd yn yr oes sydd ohoni. Dwi'n pryderu mai gwaethygu gwnaiff y sefyllfa wrth i ni symud i fisoedd y gaeaf.

"Berwyn yw fy ffrind pennaf un yn y Cyngor - mae o wedi bod yn gydymaith ac yn gyfaill gwerthfawr iawn i mi, gan nad ydyn ni'n parhau i gyfarfod wyneb yn wyneb â chynghorwyr eraill a swyddogion. Mae o wastad yno i'm rhoi ar ben ffordd ac yn arweinydd arbennig o ffyddlon wrth i mi ddysgu mwy am y gwaith."

Y tristwch i Beca yw mai cael ei hethol i'r rôl wnaeth hi, yn dilyn colli'r diweddar Gynghorydd **Charles Wyn Jones**. D'wed Beca ei bod hi'n ei theimlo hi'n fraint cael dilyn yn ôl traed y diweddar gynghorydd a pharhau efo'i waith.

Ers ei hethol, mae Beca'n eistedd ar Bwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd ac mae'n aelod o Bwyllgor Iaith y Cyngor. Mae ganddi ddiddordeb mawr yn y ddau faes, ac mae cynrychioli ward Gymreiciaf Cymru yn bendant yn ei rhoi mewn safle gwerthfawr.

Dros yr wythnosau nesaf, mae Beca'n awyddus i drefnu sesiwn gyda thîm o wirfoddolwyr i gasglu sbwriel yn y pentref ac mae ganddi gynlluniau ar y gweill i drafod gydag ieuenctid yr ardal, sut gallan nhw ei chynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r effaith mae baw ci yn ei gael ar eu hamgylchedd nhw wrth chwarae a hamddena.

"Mae pŵer pobl ifanc yn gryf, felly dwi'n awyddus i'w hannog i baratoi clipiau fideos byr i rannu eu teimladau. Mae'r broblem o faw ci yn gorwedd yn llwyr gyda pherchnogion anghyfrifol. Yn ffodus i ni, nifer fechan o bobl sy'n ymddwyn fel hyn, ond mae gennym ni i gyd ein rhan i chwarae wrth gadw'r pentref a'r amgylchedd yn lân ac yn iach."

Ac i'r Cynghorydd Sir sy'n cerdded ei Ward ddwywaith y dydd gyda Nel, ei gast milgi, mae hi'n falch iawn o oedi i sgwrsio neu glywed gan etholwyr ei hardal.









# Wyau Cog Harri Williams

Fel yr awgrymais y tro diwethaf, nid oedd Harri Williams, gweinidog ‘Capel Mawr’ Waunfawr ym 50au’r ganrif ddiwethaf, yn un am frolio ei wybodaeth am adar. Go brin y byddai aelodau ei braidd yn gwerthfawrogi rhyw lawer bod eu gweinidog yn llenwi ei ben efo’r rhan honno o’r cread sydd y tu hwnt i ras Duw. “Beth wnelo ragarug neu gyw gog â gwaith Gweinidog yr Efengyl” fyddai’r gri!

Roedd Harri Williams yn gweld rhyfeddod y natur oedd o’i gwmpas nid oherwydd, ond er gwaethaf ei alwedigaeth. Faint ohonom erbyn hyn fyddai’n brolio bod nyth siani lwyd yng ngwaelod ein gardd - heb sôn am nyth siani lwyd efo ŵy cog ynddo. Wel dyna roes y fath bleser i Harri yn ei ardd yn nhŷ capel Waunfawr. Oes rhywun ymysg ei gydnabod ar y pryd sy’n cofio am ochr hon o gymeriad y Parchedig Harri Williams?

“Ychydig flynyddoedd yn ôl (meddai Harri), ar brynhawn heulog yn nechrau haf, yr oeddwn yn gorwedd ar y glaswellt o flaen y tŷ, pan welais aderyn yn gwibio i mewn i ganghennau’r ywen yng ngwaelod yr ardd. Codais ar unwaith, ac euthum i chwilio. Oedd, yr oedd yno nyth; nyth siani lwyd. Yr oedd yn rhy uchel imi weld i mewn iddo, ond rhoddais fy llaw ynddo, a mwynheais deimlad cynnes yr wyau yn fy mysedd. Euthum i gael cadair, a sefais arni ac edrych i mewn i’r nyth. Ni allwn dderbyn am foment dystiolaeth fy llygaid. Gwelwn o’m blaen bedwar ŵy glas, yn adlewyrchiad o lesni clir y nen yng nghanol llwydni’r nyth a’r canghennau, ac un ŵy arall yn eu canol, yn fwy ei faint ac yn llwydaidd ei liw, gyda sbotiau drosto. Dyma rywbeth nas gwelswn erioed o’r blaen, ac nis gwelais byth wedyn. Rhuthrais i hysbysu fy nheulu, a’m cymdogion, a daethant yn llu i weld y rhyfeddod prin.”

Nid tan ar ôl i rai blynyddoedd fynd heibio ddaru’r byd adaryddol sylweddoli maint y rhyfeddod y bu Harri yn dyst iddo. Fe gymrodd oes o waith arbrofi manwl, a gyrfa gyfan, gan Nick Davies (Athro ym Mhrifysgol Caergrawnt) i gysylltu’r darnau jigsô o fywyd y gog a’i byd.



Darganfu Davies bod sawl math o iâr cwcw i’w gael. Yn gyffredin yng ngwledydd Prydain mae’r math sy’n dodwy ei hwyau mewn nythod y corhedydd (y mwyaf cyffredin yn yr ucheldir, ac nid cyd-ddigwyddiad yw ein henw amgen arno, sef gwas y gog), math sy’n dodwy mewn nythod telor y cyrs a math arall - a hwn welodd Harri - sy’n dodwy mewn nythod y siani lwyd. Yn wahanol i’r iâr, un math yn unig o geiliog cog sydd yna (y ceiliog, gyda llaw, sy’n canu’r ddeunod enwog) ac mae o yn ddigon ’tebol i ffrwythlonni unrhyw iâr o fewn ei gyrraedd! Ni wêl unrhyw wahaniaeth rhyngddynt fwy na fuasech chi na minnau. Yng ngenynnau’r iâr yn unig y mae’r gwahaniaeth - ac yn lliw ei hwyau mae’r gwahaniaeth yn cael ei fynegi.

Mae’r ‘gogiar-corhedydd’ (sef yr iâr gog sy’n dodwy yn nythod y corhedydd yn unig) yn dodwy wyau sy’n dynwared union batrwm ŵy’r corhedydd. Dangosodd arbrofion Nick Davies bod y corhedydd yn taflu ŵy gwahanol i’w hwyau arferol allan o’r nyth yn syth. Heb yr ystryw hon o ddynwared yr wyau arferol gan y ‘gogiar-corhedydd’, ni fyddai ei thwyll yn gweithio o gwbl. Yn yr un modd mae’r ‘gogiar-telor’, yr un sy’n dodwy yn nyth y telor yn unig, yn dynwared i’r dim ei hŵy hithau, a hithau hefyd yn taflu ymaith unrhyw ŵy gwahanol pe gwelai un. Ond, meddech (a dyma lle nad oedd Harri ei hun - fel na fyddai neb arall o ran hynny ar y pryd - yn deall yn llawn y rhyfeddod y bu’n dyst iddo) yn achos y ‘gogiar-siani-lwyd’, gwelodd Harri “ŵy arall yn eu canol, yn fwy ei faint ac yn llwydaidd ei liw, gyda sbotiau drosto”. Doedd dim ymdrech gan ‘gogiar-y-siani-lwyd’ - a does dim byth, dim ond lliwiau ar fympwy - i ddynwared patrwm na maint wyau honno. Sut yn y byd oedd Nick Davies yn esbonio hynny?



Dyma sut. Mae’r siani lwyd rydych chi’n gweld, yn ddall i liw. Mi dderbyniodd yr wyau ‘clonc’ hollol ddu a hollol wyn a blannodd Davies yn y nythod, yn enw Gwyddoniaeth. Bydden ni bobl ond yn rhy barod i ddweud bod yr hen Siani ychydig yn simpil - twp hyd yn oed! Ond ym myd natur does dim y fath beth â thwpdra. Os ydi creadur yn ddigon ‘tebol i ddal ei dir yn y jyngl sydd yng ngwaelod yr ardd, mae o’n pasio prawf bywyd ac yn ennill ei blwyf. Ac mae’r hen Siani - er gwaethaf twyll y cogau - yn ei gwneud hi’n iawn yno, diolch yn fawr!

Oni fyddai’r Parch. Harri Williams, petae’n fyw heddiw, wrth ei fodd yn gwybod am y ffeithiau newydd hyn am y gwcw. Ond mater arall efallai fyddai iddynt ymddangos yn ei bregeth Dydd Sul!




**Tyddyn Teg**
**Bwyd - Tir - Pobl**
**LLYSIAU LLEIL FFRES**
**Ymunwch â’n cynllun llysiau!**
**Dewch i’n siop!**

- Rydym bob amser gyda lysiau blasus a ffres o’n caeau a’n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i’n gwefan: **www.tyddynteg.com**

**E. W. PRITCHARD**
*Trefnwyr Angladdau*
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - **(01286) 870202**

## DINORWIG

**Y Llywodraeth**
Anodd credu fod y Llywodraeth wedi newid cymaint ar eu haddewidion rhwng cyfnod yr etholiad a rwan. Dim codiad mewn yswiriant cenedlaethol na threth incwm, a gofal i'r anghenus. Bellach mae yswiriant cenedlaethol i'w godi a'r arian ar gyfer yr anghenus wedi ei dynnu yn ôl. Anodd gwybod sut y bydd llawer o deuluoedd yn gallu byw heb gymorth ariannol er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd.

**Penblwydd**
Dymuniadau gorau i Osian Elidir, 8 Bro Elidir, ar ei benblwydd yn bedair oed fis Medi ac ar ddechrau ei dymor ysgol am y tro cyntaf. Hanner diwrnod yw hi ar hyn o bryd, a da deall dy fod yn mwynhau dy hun. Edrych ymlaen am ddiwrnod llawn o Fedi nesaf.

**Newid tywydd**
Dyma dymor yr hydref wedi cyrraedd. Cyn i'r haf gyrraedd ni chawsom dywydd rhy ddrwg, ond fe ddaeth oerni sydyn a gwlybaniaeth i'w ddilyn. Roedd addewid am dywydd cynhesach a sychach at ganol mis Hydref. Cawn weld a gafodd ei wireddu a thorri'r gaeaf. Mae'r cloc i'w droi'n ôl ar ddiwrnod olaf y mis, a wynebwn aeaf gyda phrisiau trydan a nwy yn codi.

**Siop Cwm**
Bu Iris a Neil yn disgwyl yn hir i gael gwireddu eu dymuniad o sefydlu siop ar safle'r garej, a mawr obeithio y daw llwyddiant o'r fenter. Roedd gwên, sgwrs, diolch a 'galwch eto' wastad i'w gael yn siop fach y garej. Yr un fydd yn ein disgwyl yn y siop newydd rwy'n siwr – a mwy o ddewis y tro hwn. Braf hefyd yw gweld fod y staff i gyd yn Gymry Cymraeg, yn byw'n lleol, a'r cwsmeriaid yn eu hadnabod. Pob llwyddiant i'r dyfodol.

**Cylchfan Pen Llyn**
Wedi amser hir a chiwiau hirach, gydag amryw yn teimlo'n flin ac yn gas, daeth y gwaith ar y gylchfan newydd i ben. Mae'n ymddangos fod llif y drafnidiaeth yn llawer mwy esmwyth, a gobeithio mai felly y pery.

**Cofion**
Dymuniadau gorau i Mrs Betty Bower ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Mae colled ar eich ôl, a chwithau wedi bod mor weithgar yma. Ein cofion hefyd at drigolion yr ardal sydd heb fod mewn cystal iechyd; boed gartref neu yn yr ysbyty.

**Mudiad Ysgolion Meithrin**
Ti a Fi am Dro Dinorwig - cyfle i gymdeithasu i deuluoedd sydd â phlant 0-4 oed. Cyfarfod ger Cofeb y Chwarelwyr yn yr Allt Ddu am 10.30 ar fore Llun 1, 8, 15, 22 a 29 Tachwedd a 6 ac 13 Rhagfyr. Bydd y sesiwn yn para awr, ac yn dilyn yr holl reolau Covid-19. Mae lle i 10 oedolyn ac mae angen archebu lle o flaen llaw drwy gysylltu ag anna.jones@meithrin.cymru

## DEINIOLEN

**Gair gan y Cynghorydd Mr Elfed Williams**:
Diolch i aelodau Elfennau Gwyllt am wneud gweithgareddau gydag ieuenctid ward Deiniolen ddiwedd mis Gorffennaf.

Mae'r Cyngor am wneud gwaith ar wal gyferbyn â'r Eglwys. Nid ydynt wedi cadarnhau dyddiad i ddechrau ar y gwaith eto.

Mae'r Cyngor wedi rhoi caniatâd i ieuenctid Deiniolen wneud prosiect graffiti ar wal Tŷ Elidir. Bydd mwy o newyddion i ddilyn am y cynllun cyffrous yma.

Bydd gwasanaeth Sul y Cofio eleni yn cael ei gynnal ar y 14 Tachwedd am 9.15 AM wrth y gofeb. Croeso cynnes i bawb.

**Llongyfarchiadau**
Yn ddiweddar, daeth llwyddiant arbennig i un o feibion y pentref. Magwyd Rheinallt Parri yn Rhes Fictoria ac yno y bu'n byw tan iddo fynd i ffwrdd i'r coleg yn Southampton yn 1988. Tra yn y coleg, fe lwyddodd i ennill gradd BSc ac yna cwblhau PhD i gyd yn y maes gwyddonol/meddygol. Wedi iddo gwblhau ei gyrsiau yn Southampton, fe'i denwyd i weithio yn adran Ffarmacoleg (*Pharmacology*) Prifysgol California yn San Francisco. Wedi iddo fyw yno am dair blynedd yn darlithio a chwblhau gwaith ymchwil, fe ddychwelodd i Gymru i weithio ym Mhrifysgol Caerdydd. Arhosodd yno am 9 mlynedd cyn symud i Brifysgol Aston, Birmingham a gweithio yno fel darlithydd ac yna uwch ddarlithydd wrth barhau i ymchwilio i'r ymennydd ac amrywiol gyflyrau.

Y llwyddiant a ddaeth iddo yn ddiweddar oedd derbyn cymhwyster Athro (*Professor*) sydd yn dipyn o gamp o fewn maes mor arbenigol. Mae bellach yn byw yn Sutton Coldfield gyda'i wraig Jo a dwy o genod, Seren a Bethan. I'r rhai sydd yn adnabod Rheinallt, nid yw ei lwyddiant yn syndod ac nid yw wedi newid fawr ddim ers ei ddyddiau yn Rhes Fictoria. Mae'n falch iawn o'r pentref a'r ardal ac yn browd i alw ei hun yn un o Hogia Llanbabo. Llongyfarchiadau Rheinallt, mi rydan ni i gyd yn falch iawn o dy lwyddiant.

**Merched y Wawr**
I agor y tymor eleni cafwyd noson i gymdeithasu a chael pryd bach o fwyd, ac yn bwysicach na dim, cyfle i gyfarfod ein gilydd unwaith eto a chael sgwrs. Cafwyd noson fendigedig a phawb mewn hwyliau da. Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Tŷ Elidir nos Lun, 18fed Hydref am 7.00 PM. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno â ni.

**Cydymdeimlo**
Dymunwn estyn ein cydymdeimlad at deulu, cymdogion a ffrindiau Mrs June Edwards, 2 Vaynol House, Clwt-y-Bont a fu farw ar 1af Hydref, mi fydd colled anferth ar ei hôl.





# Ysgol Gwaun Gynfi

**Dosbarth Meithrin**
Dyma nhw - ein Dosbarth Meithrin sydd wedi setlo'n arbennig o dda erbyn hyn.







**Croeso i'r anifeiliaid**
Un o flaenoriaethau'r plant ydi cael anifeiliaid anwes yn yr ysgol. Fel y gwyddoch, mae Lili'r ci yma gyda ni yn yr ysgol yn rheolaidd. Dyma nhw'r gweddill!










**Murlun newydd**
Dyma lun o'r murlun arbenig iawn gan Andi Birch. Bydd yr holl anifeiliaid yn gartrefol iawn gyda'r teigrod a'r eliffantod!





**Gareth Roberts yn ymweld â'r ysgol**
Braf oedd cael croesawu Gareth yn ôl atom wedi cyfnod hir iawn heb ymweliadau! Disgyblion Cyfnod Allweddol Dau yn mwynhau cael gwybod am hanes y pentref. Diolch yn fawr.

# Parc Padarn ymhlith y lleoliadau i ennill y Faner Werdd

Mae Parc Padarn yn Llanberis ymhlith 248 parc a man gwyrdd yng Nghymru sydd wedi derbyn Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.

Mae enillwyr eleni yn cynnwys ystod amrywiol o safleoedd, o barciau gwledig a gerddi ffurfiol, i randiroedd, coetir a mynwentydd.

Bellach yn ei thrydydd degawd, mae Gwobr ryngwladol y Faner Werdd yn arwydd bod gan barc neu fan gwyrdd y safonau amgylcheddol uchaf posibl, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhagorol a bod ganddo gyfleusterau gwych i ymwelwyr.

Wedi ei leoli mewn 800 acer, mae Parc Gwledig Padarn yn cynnig golygfeydd trawiadol, o Lyn Padarn i Gastell Dolbadarn a mynyddoedd Eryri.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Economi a Chymuned: "Mae'n destun balchder bod Parc Padarn wedi sicrhau'r faner werdd unwaith eto eleni.

"Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled ynghyd â'r holl wirfoddolwyr lleol am eu hymroddiad a'u gwaith gwych i helpu cadw'r ardal yn daclus.




Diolch yn fawr i chi gyd."

Mae gan Gymru dros draean safleoedd cymunedol Baner Werdd y DU, sydd yn cael eu cynnal a'u cadw a'u rhedeg gan wirfoddolwyr.

Dywedodd Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru: "Mae mannau gwyrdd yn hanfodol i iechyd meddwl a chorfforol a thrwy gydol y pandemig, rydym wedi gweld pa mor bwysig mae'r mannau hyn wedi bod i gymunedau lleol.

"Mae gan Gymru dros draean safleoedd cymunedol Baner Werdd y DU o hyd ac mae'n rhagorol gweld mwy o fannau yng Nghymru yn derbyn Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.

"Mae'r tirweddau hyn yn chwarae rhan hanfodol yn cyflwyno ecosystemau cyfoethog a chymunedau bywiog a chydnerth, ac rwyf yn llongyfarch pob safle am ddarparu cyfleusterau a digwyddiadau rhagorol, drwy'r flwyddyn ar gyfer pobl yng Nghymru."

Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Gwirfoddolodd arbenigwyr mannau gwyrdd annibynnol eu hamser ar ddechrau'r hydref i feirniadu safleoedd ymgeiswyr yn erbyn wyth maen prawf llym, yn cynnwys bioamrywiaeth, glanweithdra, rheolaeth amgylcheddol a chyfranogiad cymunedol.

Dywedodd Lucy Prisk, Cydlynydd y Faner Werdd yn Cadwch Gymru'n Daclus:

"Dangosodd y pandemig i ni pa mor bwysig yw parciau a mannau gwyrdd o ansawdd da i'n cymunedau. Gyda mwy o ymwelwyr nag erioed yn mwynhau ein mannau gwyrdd, hoffwn longyfarch gwaith caled staff a gwirfoddolwyr sydd wedi cynnal safonau rhagorol yn y safleoedd hyn."

Am ragor o wybodaeth am Barc Padarn ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ParcPadarn

Mae rhestr lawn o enillwyr y wobr ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus www.keepwalestidy.cymru

## Dathlu rhifyn 500 o'r Eco

Gydag iechyd a thipyn bach o lwc fe ddylem ddathlu cyhoeddi rhifyn rhif 500 o Eco'r Wyddfa fis Ebrill 2022. Pwy feddylia, pan gyhoeddwyd y rhifyn cyntaf un yn ôl ym mis Chwefror 1976, beth fyddai dyfodol y papur bro hwn? 46 mlynedd a 500 rhifyn yn ddiweddarach (gobeithio!) mi fydd yr Eco yn dal yma. Rydym wedi byw'n hirach na sawl papur newyddion Cymreig a Phrydeinig a niferoedd di-ri o gylchgronau. Yn wir, mae'r papurau bro ar draws Cymru yn parhau i lwyddo, hyd yn oed mewn oes sy'n troi'n fwy-fwy digidol.

Mae hyn i gyd yn rheswm i ni ddathlu! Dathlu gorffennol, presennol a dyfodol i Eco'r Wyddfa. Mae'r llwyddiant hwnnw yn llwyr o'ch herwydd chi. Mae'r Eco yn bapur sydd wedi ei gynnal gan wirfoddolwyr a'i ddarllen gan ddarllenwyr ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Mae'r Eco yn perthyn i'r fro, felly pam ddim dathlu a diolch i bawb sydd wedi sicrhau llwyddiant y papur ers y dechrau cyntaf un?

Dyma alwad felly i chi gysylltu â ni – drwy ebost ecorwyddfa@gmail.com, neu drwy law un o'r golygyddion – os oes gennych chi syniadau am sut y gallwn ddathlu cyhoeddi rhifyn 500. Os fydd rheolau Covid-19 yn parhau i ganiatau gweithgareddau cymdeithasol yna efallai y gallwn gynnal gweithgareddau cyhoeddus? Pa atgofion sydd gennych o gyfrannu neu ymddangos yn yr Eco? Oes yna stori yn aros yn y cof? Sut Eco hoffech chi ei weld i'r dyfodol?

Buan iawn y daw hi'n ganol fis Mawrth pan fydd hi'n amser i gyhoeddi rhifyn pen-blwydd 500 ar gyfer mis Ebrill, felly plis dechreuwch anfon eich syniadau atom! Mi fedr fod yn barti a hanner!!


ECO'R WYDDFA

RHIF 1 — CHWEFROR 1976 — PRIS: 8c.

BETH DDAW O'R YSGOL?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rain... er Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg ... sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn... hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.

EICH PAPUR CHI

Dyma fo o'r diwedd – papur bro plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosibilrwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 – yn ffaith.

EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiliadau o'i sefydlu. Ar ôl cael sgwrs a thrafodaeth hir â chynrychiolwyr o ddau bapur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Lleu, daethpwyd i'r penderfyniad i sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adrannau ac agweddau ohono.

CÂN ECO'R WYDDFA

Fe gewch yn Eco'r Wyddfa
Rywbeth at bob dant,
Ysgrifau a barddoniaeth
A chomic bach i'r plant.
Wel, prynwch Eco'r Wyddfa
A chewch newyddion bro
O Benisarwaen a Bethel
Llanrug a Chwm-y-Glo.

*Cytgan:*
*Eco'r Wyddfa, Eco, Eco'r Wyddfa*
*Dyma'n papur bro,*
*Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa,*
*Dyma'r papur bro.*

O'i waly yng Ngwasg Gwynedd
Unwaith yn y mis
Daw'r Eco i'ch cartrefi,
Rhesymol yw ei bris.
Newyddion o Ddinorwig,
Deiniolen a Fachwen;
Am gasglu sgwps yr ardal
Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.

Tudalen ar chwaraeon,
Llythyrau, pynciau'r dydd,
A lle i bawb ohonoch
Gael lleisio'ch barn yn rhydd;
Llanberis a Brynrefail,
O Glwt y Bont i'r Nant,
Wel, dyma'r papur gorau
I Taid a Nain a'r plant.

*Selwyn Griffith.*

Clawr rhifyn cyntaf Eco'r Wyddfa, fis Chwefror 1976

# Ysgol Gynradd Llanrug

Dyma atgofion Elain Beach o flwyddyn 6 am ymweliad diweddar â gwersyll adnabyddus -

Am dridiau ym mis Medi eleni cafodd disgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i ymweld â Gwersyll yr Urdd Glan Llyn. Dyma'r tro cyntaf i nifer ohonom aros dros nos mewn rhywle gwahanol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac roedd yn brofiad bythgofiadwy. Cawsom gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis dringo, saethyddiaeth, nofio a chyfeiriannu yn ogystal â gwlychu at ein croen yn y gweithgareddau ar y llyn! Roedd bwyd yn y gwersyll yn anhygoel, y staff yn glên ac yn garedig dros ben a braf oedd clywed pawb yn siarad Cymraeg o fore gwyn tan nos. Hoffwn ddiolch i'n hathrawon yn Ysgol Gynradd Llanrug am fod mor barod i fynd â ni. Profiad anhygoel fydd yn siwr o aros yn y côf am flynyddoedd i ddod!

**Ymweliadau**

Daeth John Dilwyn Williams draw o'r archifdy i siarad am hanes ffynonellau goleuni. Bu i blant blwyddyn 3 a 4 ddysgu llawer.



**Graffiti**

Murluniau gwych newydd wedi cael eu peintio yn ystod y mis. Y plant wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith. Diolch Andy.



**Gweithdy Celf a Cherdd**: cafodd disgyblion blwyddyn 5 gyfle i fod yn greadigol a chreu gwaith arbennig o dan arweiniad yr artist Catrin Williams a'r cerddor Iwan Llewelyn Jones.



**Gweithdy Chwaraeon**

Plant blwyddyn 5 wedi mwynhau'r sesiwn gyntaf o'r gweithdy chwaraeon.

**MacMillan**

Bu i'r Ysgol gefnogi ymgyrch MacMillan a chael bore coffi yn ystod y mis. Codwyd £123.

**Morrisons**

Mae'r Ysgol wedi cofrestru ar gyfer 'Good to Grow' gyda Morrisons. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

**Meddylfryd o Dwf**

Cafwyd diwrnod Meddylfryd o Dwf, sef cyfle i hybu'r plant i ymgeisio ar wahanol dasgau gan ddefnyddio canolbwyntio, dyfalbarhad, cydweithio a chymryd risg.





**Cyngor Ysgol**

Mae'r plant wedi bod yn brysur yn pledleisio am eu cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol.









Rydym bob amser wrth ein boddau yn croesawu Susan Williams i gynnal gwasanaethau difyr a chael cyfle i ddysgu caneuon newydd.



**Chwilio am ohebydd pentref newydd**
Ar ôl dros 20 mlynedd o wasanaeth a chefnogaeth i'r Eco, mae Eryl ein gohebydd pentref presennol yn dymuno rhoi'r gorau i'r gwaith. Diolch o galon i chi Eryl am bopeth yr ydych wedi ei wneud drwy'r cyfnod hwn. Dyma gyfle felly i rhywun newydd gamu ymlaen!

Be' fydd angen i mi ei wneud? Gofynnwn i chi fod yn barod i chi rannu ein manylion cyswllt er mwyn i bobl gysylltu â chi i rannu eu newyddion, ac i chithau hefyd chwilio am straeon yn y pentref. Wedyn, bydd angen i chi basio'r wybodaeth honno ymlaen unwaith y mis. Gall fod yn gyfle i fwy nag un person weithio efo'i gilydd i wneud y gwaith os nad ydych yn dymuno gweithio ar eich pen eich hun.

Mae croeso i chi gysylltu ag Eryl neu un o'r golygyddion os hoffech ragor o wybodaeth – manylion cyswllt ar dudalen 2. Diolch bawb!

**Pen-blwydd Hapus**
Gobeithio y ceith Rhian Jones, Stâd Minffordd, ddiwrnod hapus ar ei phen-blwydd arbennig! Cofion gorau oddi wrth Criw Caffi Meira.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau mawr i Kevin a Gill Holdsworth ar eu dathliad priodas ruddem.

**Diolchiadau**
Dymuna Linda ac Olwen ddiolch yn fawr am y gefnogaeth drwy gyfrannu a rhoi chymorth gyda'r Bore Coffi a gynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa ar 24ain Medi. Fe gasglwyd £605.40 tuag at elusen MacMillan.

**Profedigaethau**
Trist iawn yw cofnodi profedigaeth lem teulu bach ifanc. Bu farw Huw Tudur Williams, Rhos Rug yn 30 oed. Gŵr annwyl iawn i Elen a mab yng nghyfraith hoff i Irfon a Heddwen (Modurdy Cwm y Glo gynt). Cofiwn hefyd am ei deulu ar Ynys Môn. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â chwi.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gydag Eirian a Bryan, Glanffynnon, y plant Iwan ac Aled a'u teuluoedd bach, yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain hynod iddynt. Gweddw y diweddar Now Lewis, Madryn House oedd Mrs Beryl Lewis ac yn fam hefyd i Mona a Hans a'u teulu hwythau. Meddwl amdanoch yn eich colled.

Cofiwn at deulu Wiggins, Glanffynnon a Ffordd yr Orsaf yn eu profedigaeth lem hwythau.

**Capel y Rhos**
Cyflwynwyd tystysgrif arbennig i Mrs Megan Williams, Bron Eryri gan y Parch. Marcus Wyn Robinson. Cydnabyddwyd 40 mlynedd o'i gwasanaeth fel blaenor yng Nghapel y Rhos. Yn yr un modd derbyniodd Mr Iolo Llywelyn, Cae Garnedd, Bangor yn ei absenoldeb dystysgrif yn cydnabod 60 mlynedd o'i wasanaeth fel blaenor. Llongyfarchiadau a diolch o galon i'r ddau.



Oedfaon mis Tachwedd
Tachwedd
7 – Mr Dafydd Iwan
14 – Mr Aled Job
21 – Parch. Gwyndaf Jones
28 – Parch. Pryderi Llwyd Jones

**Eglwys St Mihangel yn yr Institiwt at 10.00 AM**
Tachwedd 7ed – Eglwys Caffi, Noah a'r enfys, crefftau a lluniaeth.
21ain – Cymun Bendigaid.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Clwb Cant Hydref:
1 – Cliff Williams, Llanrug
2 – Berwyn Jones, Llanrug

**Merched y Wawr** – **cyfarfod 14eg Medi**
Gan ddilyn y rheolau presennol a gwisgo gorchudd wyneb, braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghapel y Rhos am 7.30 PM. Bu'n bleser croesawu nifer dda o aelodau yn cynnwys tair aelod newydd gan ein Llywydd Nan Humphreys. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer ac anfonir ein cofion anwylaf at aelodau sy'n sâl, gan ddymuno adferiad iechyd buan.

Atgoffwyd pawb am Fore Coffi er budd Macmillan, bore Gwener, 24ain – rhwng 10.00 AM tan hanner dydd. Dymunir llongyfarch a diolch i Meirwen Lloyd am ei heffeithiolrwydd fel Llywydd Cenedlaethol y Mudiad, a hynny ar adeg mor heriol. Diolch hefyd i Pat am ofalu am Raglen y Gangen 2021 – 2022.

Cydymdeimlwyd ag Eirian a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain werthfawr.

Difyr a gwerthfawr oedd syniadau'r Mudiad am 'Garedigrwydd ym mis Medi' – megis rhannu patrwm gwau, galwad ffôn, cynnig mynd â rhywun am dro, rhoi toriad o blanhigyn i ffrind, plannu coeden, cyd-gerdded gydag aelod arall, cwrdd am baned, rhannu eich hoff rysáit, dechrau pob sgwrs yn y Gymraeg… a llawer mwy.

Mae cardiau Nadolig a dyddiaduron yn barod i'w dosbarthu. Mae newyddion cyffrous fod yna lyfr newydd ar gael yn awr, sef, 'Caru Crefftio' – llyfr fydd yn ysbrydoli pawb. Ar 1af Hydref gwelir casgliad rhanbarthol o 'Flodau Gobaith' i gyrraedd Aberystwyth erbyn diwedd Hydref.

Dyma gystadlaethau Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf, 29ain/30ain Tachwedd:

a) Eitem yn ymwneud â cherddoriaeth e.e. croesbwyth gyda chriw yn canu carolau neu gerdyn cyfarch hen gwilt gyda nodau.

b) Clustog Nadoligaidd – unrhyw faint, unrhyw siâp, unrhyw grefft.

c) Eitem yn cynnwys y lliw du, gwyn neu ddu a gwyn (gellid defnyddio lliwiau eraill yn ogystal â du a gwyn)

ch) Coginio – Cacen/teisen i'w rhoi yn anrheg i gymydog.

Ceisiadau olaf erbyn 15fed Hydref.

Estynnwyd groeso cynnes i'n siaradwr gwâdd, sef Elin Tomos neu Elin Nant fel mae rhai yn ei hadnabod. Wedi cyfnod o astudio yn Aberystwyth mae hi bellach nôl adref yn gweithio i 'Cwmni Da' ac yn hanesydd llawrydd. Cyhoeddodd ei chyfrol gyntaf yn 2020 am hanes iechyd ardal Peris. Oes Fictoria ydy hoff gyfnod Elin, o 1870 i'r 80au a hyd at 1906. Mae hi'n hoffi olrhain bywyd gwragedd y chwarelwyr ym mröydd y Llechi. Roedd dwy nain Elin o deuluoedd chwarelyddol a bu'r ddwy'n ysbrydoliaeth iddi hoffi hanes. Cawsom hanes Jennie Williams nyrs yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1919, hanes ei magwraeth yn Llanberis a'r pethau erchyll a brofodd ac a welodd hi. A hithau wedi'i magu yn Nant Peris cafodd Elin bleser yn gwneud ymchwil am y bobl oedd yn byw yn ei chartref. Bu ymweliad â thai Fron Haul yn yr Amgueddfa Lechi i Elin ac i ninnau yn sicr yn dipyn o sbardun i allu medru mynd i mewn i dŷ a throi'r cloc yn ôl. Mae cymaint wedi'i sgwennu am y chwarelwyr a'r diwydiant gwrywaidd ond dim cymaint am yr elfennau cymdeithasol, y diwylliant a'r gwragedd. Bu'n orig ddifyr, gyda nifer o'r aelodau yn cofio gwisgoedd eu neiniau, dylanwad y capel, dydd Llun golchi, y bwydydd syml a'r tun celc a gadwyd yn slei ar gyfer penblwyddi a'r Nadolig. Gobeithio y gwireddir breuddwyd Dei Tomos, tad Elin, y ceir, "rhyw fath o adeiladwaith i gofio'r chwarelwyr a'u teuluoedd a fu'n gyfrifol am y diwydiant llechi yn y fro hon. Gobeithir creu creadigaeth gelfyddydol a fyddai'n dysteb weledol a pharhaol o'r gorffennol diwydiannol yma a greodd gymdeithas unigryw ei









ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

natur, Cymraeg ei hiaith a hael a pharod ei chymwynas". Diolchwyd i Elin am orig hyfryd ac addysgol gyda threm yn ôl i nifer ohonom am y cyfnod caled a dylanwadol a fu ar y chwarelwyr diwylliedig a'u gwragedd dewr.

Ar 12fed Hydref, treuliwyd orig siriol yng nghwmni Linette Gwilym yn olrhain cychwyn ei 'Siop dros dro'. Gweithiwr cymdeithasol yw ei swydd lawn, ond mae hi wedi sefydlu cwmni o'r enw 'Clyd' ers 10 mlynedd yn gwerthu dillad, nwyddau, cyfwisgoedd Cymreig unigryw – mygydau, snŵd, dillad plant ac oedolion gyda'r logo 'daw eto haul ar fryn' neu 'y merched Cymreig'. Bellach mae nifer fawr â diddordeb yn y cynnyrch Cymreig yma. Mae'r nwyddau Nadolig ar gael ar wefan cartrefclyd.com. Mae Linette yn diolch i'w nain, oedd yn grefftwraig neilltuol, am ennyn diddordeb ac mae creu'r cynnyrch yn ffordd wych o ymlacio. Bu cyfle i'r aelodau gael gweld y nwyddau a hefyd i'w prynu neu eu harchebu. Diolchwyd i Linette am noson gymdeithasol hyfryd a dymunwyd y gorau iddi yn ei menter Gymreig.

Dymuna Olwen a Linda ddiolch i bawb a gefnogodd Bore Coffi Macmillan. Gwnaed elw sylweddol o £605.40.

Edrychir ymlaen am 'Noson o gelfyddyd weledol' gan Mary Thomas ar 9fed Tachwedd.

## PENISARWAUN

Rydym yn dal i chwilio am Ohebydd Pentref!

Beth yw'r gofynion?
- Bod yn barod i rannu manylion cyswllt er mwyn i bobl gysylltu â chi i rannu newyddion ac i chwilio am newyddion yn y pentref bywiog hwn. Nodi llwyddiannau, priodas, cydymdeimlo, penblwyddi arbennig a chofnodi'r gweithgareddau a drefnir drwy'r flwyddyn yn y pentref. Gall mwy nag un person weithio drwy'i gilydd!

Bydd angen e-bostio'r newyddion pentref i Eco'r Wyddfa erbyn yr ail ddydd Gwener yn y mis ar ecorwyddfa@gmail.com



FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU



# Ysgol Gymuned Penisarwaun



**Ymddeoliad**
Ar ddiwedd y tymor cafodd y disgyblion gyfle i fynegi eu diolch a dymuno yn dda i Anti Liz ar ei hymddeoliad diweddar. Diolch i Anti Liz am ddod i'n gweld yn yr awyr agored ddiwedd y tymor, roedd pawb wedi gwirioni ei gweld. Cyflwynwyd blodau a rhodd gan staff, rhieni a disgyblion yr ysgol. Mwynhewch eich ymddeoliad Anti Liz.



**Derbyn disgyblion newydd i'r ysgol**
Croesawyd pump o ddisgyblion newydd i'r Meithrin fis Medi. Mae pob un ohonynt wedi setlo yn syth ac yn mwynhau eu hunain yn yr ysgol. Croeso mawr iddynt a gobeithio byddent yn hapus iawn yn Ysgol Penisarwaun.

**Croeso**
Croesawyd Miss Bethan Owen o Rhiwlas i'r ysgol fis Medi. Mae Miss Owen yn athrawes sydd newydd gymhwyso a bydd yn treulio tymor yma yn ein cefnogi ni yn Ysgol Penisarwaun. Gobeithio y bydd yn mwynhau ei chyfnod yn yr ysgol.



# Eryri: Pobol y Parc

Mae eleni'n nodi 70 mlynedd ers ffurfio Parc Cenedlaethol Eryri. Ers deunaw mis mae camerâu Cwmni Da wedi bod yn dilyn staff a thrigolion y Parc er mwyn cynhyrchu cyfres deledu i ddathlu'r penblwydd arbennig. Lleisiau a straeon y bobl sy'n byw, gweithio a hamddena yn Eryri sydd i'w clywed yn y gyfres yma, a bydd lle i sawl barn a safbwynt wrth i'r Parc ddathlu'r presennol, ac edrych ymlaen i'r dyfodol yn dilyn cyfnod heriol tu hwnt.

A'r gyfres wedi ei ffilmio ym mhob tymor a thywydd, yn erbyn cefnlen o ddelweddau dramatig a chofiadwy, cawn weld Eryri a'i phobol mewn goleuni newydd dadlennol. Dyma Bobol y Parc. Tybed pwy fyddwch chi'n ei adnabod?

Mae dwy raglen wedi eu darlledu eisoes a gallwch eu gwylio eto drwy wasanaeth Clic S4C, ond mae yna ddwy raglen ar ôl, am 9.00 PM, nos Fawrth 2 a 9 Tachwedd.

# Ti'n cofio 40...30...20...10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - www.ecorwyddfa.co.uk - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am dros 45 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch fynediad i'r holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eco* fis Chwefror 1976, a chyn bo hir byddwn yn dathlu cyhoeddi rhifyn 500. Dipyn o gamp! Ewch i gael cip ar yr hen rifynnau a'r lluniau i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalenau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* ym mis Tachwedd 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

## Tachwedd 1981

Pris yn 15c. Ar 20 Hydref llosgwyd Pen Ceunant Isa, bwthyn uwchlaw Llanberis, gan achosi difrod sylweddol er na anafwyd neb. Hawliodd Meibion Glyndŵr gyfrifoldeb am y tân.

Galw i ddatrys problemau gorlifo'r gors rhwng Penisarwaun a'r Waun sy'n rhwystro pentrefwyr rhag gallu defnyddio'r llwybrau troed.

Newyddion pentrefi yn sôn am wasanaethau Diolchgarwch yr hydref, a gwerthiant baneri i godi arian i'r Urdd.

Hysbyseb gan y 'Welsh Development Agency' (enw uniaith Saesneg wrth gwrs, 'da chi'n eu cofio nhw?!) yn cynnig cyngor i'r rhai sy'n dymuno cychwyn busnes.

Hysbyseb ar gyfer sioe gerdd *Y Mab Darogan* gan Gwmni Theatr Maldwyn yn Theatr Seilo. Pwy feddylia bod y sioe honno'n 40 oed! Mae hi wedi dyddio'n dda.

Mae erthygl 'Damweiniau plant ar ein ffyrdd' yn ail-adrodd cyngor y Llywodraeth er mwyn cadw plant yn ddiogel. Anodd credu heddiw bod angen rhoi'r cyngor dilynol, ond dyna ni roedd hi'n oes wahanol…

Peidiwch byth â dal baban yn eich breichiau yn y sedd flaen.

Peidiwch byth â gadael i blentyn eistedd neu sefyll ar y sedd flaen heb wregys i'w ddiogelu.

Peidiwch byth â gadael i blentyn sefyll ar y sedd ôl.

Hanes cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol hen ysgol Hafod Meurig, neu Ysgol Brynrefail. Dymchwel ai peidio?

Chwaraeon - Llanberis yn ail yn y gynghrair, Llanrug yn bedwerydd a Bethel yn olaf ond un.

## Tachwedd 1991

Pris yn 25c. Hanesion eisteddfodau lleol Gwaun Gynfi, Waunfawr a Llanrug.

Cyfarfod Cyffredinol i drafod dyfodol yr Eco, a chais am fwy o gymorth i helpu gyda'r gwaith llafurus o blygu'r copiau i gyd â llaw.

Canlyniadau holiadur gan Antur Padarn yn dangos - 5% yn unig o'r holl bobl (tua 2,000 i gyd) a holwyd oedd yn gefnogol i gynlluniau i ddatblygu Glyn Rhonwy ar gyfer twristiaeth, o unrhyw fath.

Dim ond 2.5% oedd yn gefnogol i gynlluniau twristiaeth ar raddfa eang ar gyfer yr ardal.

Byddai 92% o fyfyrwyr lleol yn aros i weithio yn yr ardal hon pe byddai gwaith ar gael yma; byddai 71% o blant rhwng 14 a 18 oed yn gwneud yr un fath.

Cyfarfod Cyhoeddus wedi ei alw er mwyn ail sefydlu pwyllgor i gynnal y cae chwarae yng Nghaeathro. Gareth Edwards, hyfforddwr gyda Chlwb Karate Llanrug, yw'r cyntaf o'r ardal i ennill y 'belt du'.

## Tachwedd 2001

Pris yn 40c. Cofio deg mlynedd ers marwolaeth yr 'hogyn o Lanbabs', Gwenlyn Parry, gyda S4C yn ail redeg nifer o'i raglenni teledu. Er bod Gwenlyn yn adnabyddus fel dramodydd campweithiau dwys neu abswrd fel Y Tŵr neu Saer Doliau, rhaid cofio hefyd mai y fo oedd awdur neu gyd-awdur campweithiau doniol fel Fo a Fe a'r ffilm Grand Slam. Yn ei eiriau ei hun, "'Mae'r difrifol wrth gwrs yn gallu bod yn theatrig, ond os na chewch chi'r digrifwch efo'r difrifol, dydi o da i ddim byd, a dwi'n gobeithio bod hynny yn fy ngwaith i hefyd achos gesh i beth wmbrath o hwyl yn Neiniolen.'

Adroddiad ar bencampwriaeth rasus cyfnewid Prydain (rasio mynyddoedd) ar 21ain Hydref gafodd eu trefnu gan Glwb Rhedwyr Eryri. Bu'r rhedwyr am y gorau i gyrraedd y brig drwy redeg y cwrs o amgylch Cwm Dwythwch.

Dathlu bod aelod o Glwb Rhedwyr Eryri, Colin Donnelly o Ddinorwig, yn ennill pencampwriaeth y byd. Mae'n cael ei glodfori mewn erthygl yng nghylchgrawn The Fellrunner ble dadansoddwyd canlyniadau clasuron rasus mynydd Prydain dros yr ugain mlynedd flaenorol, a Colin Donnelly ddaeth i'r brig.

Fandaliaeth a difrodi eiddo yng nghae chwarae Pwll Moelyn a Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

Plant Ysgol Bethel yn dathlu Diwrnod Ieithoedd Ewrop drwy wisgo gwisgoedd traddodiadol gwahanol wledydd, blasu gwahanol fwydydd, a dysgu ychydig o Ffrangeg yng nghwmni disgyblion Ysgol Brynrefail. Er mwyn nodi'r un achlysur mae disgyblion Ysgol Brynrefail yn cynnal y gwasanaeth boreol drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg ac Almaeneg.

Plant Ysgol Llanrug sy'n codi'r swm uchaf o arian i Apêl Plant Mewn Angen ar draws gogledd Cymru.

Cynnal cyfarfod blynyddol cyhoeddus cyntaf cynllun Rygarug, sef cynllun perfformio celfyddydol i blant a phobl ifanc.

## Tachwedd 2011

Pris yn 50c. Dathlu cyhoeddi hunangofiant y bridiwr ceffylau gwedd llwyddiannus o Llys, Brynrefail, sef William Hugh Griffith. Daeth enwogion o bell ac agos i fferm Tros y Waen i gydnabod ei ddylanwad a'i lwyddiant, ac mae'r llyfr *O'r Castell i'r Llys* yn dal mewn print os nad ydych eisoes wedi ei ddarllen.

Hanes criw o Geidwragedd o Lanberis aeth ar daith gerdded gyfnewid i Forbegno, gefeilldref Llanberis yn yr Eidal.

Cais i bawb chwilio am hen luniau sy'n dangos bywyd a phobl ein hardal fel bod posib eu sganio a'u cadw ar ffurf ddigidol am byth.

Cyhoeddi yr adroddiad cyntaf yn yr Eco gan gangen Jacs y Gogledd.


DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Ysgol Brynrefail

**Disgyblion yn cefnogi Elusen Cancr Macmillan**
Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio cwrs Agored Cymru am gyd-weithio mor ardderchog i baratoi a gwerthu cacennau blasus a chasglu £98.71 i gefnogi'r elusen bwysig yma. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



**Gwersi Gwyddeleg**
Dyma luniau o rai o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn mwynhau cyflwyniad i'r Iaith Wyddeleg yn ystod eu gwersi Ieithoedd yn yr Adran Gymraeg. Cafodd y disgyblion fodd i fyw ac roedd 'na gryn chwerthin wrth ymarfer a llunio sgyrsiau yn eu hiaith newydd. Tybed oes 'na rai ohonoch chi'n medru gwneud cystal? Neu oes 'na rywun yn y gymuned sy'n medru iaith arall? Beth am rannu eich arbenigedd efo ni?!

Y bwriad yw cyflwyno iaith arall yn fuan gan fod hyn wedi gweithio'n ardderchog efo'r plant.



**Prif ddisgyblion 2021-22**
Llongyfarchiadau i'r pedwar disgybl arbennig yma o Flwyddyn 13 sydd wedi eu hethol yn brif ddisgyblion Ysgol Brynrefail 2021-22. Y prif ddisgyblion eleni yw Nel Jones a Deio Roberts a'r ddau ddirprwy brif ddisgybl yw Gwernan Brooks ac Elis Edwards. Llongyfarchiadau mawr a phob hwyl i'r pedwar wrth gychwyn ar eu gwaith.




**Cystadleuaeth Sgïo**
Cynhaliwyd Cystadleuaeth Sgïo Ysgolion Rhanbarthau Cymru yn Llandudno ar ddechrau Hydref. Yno'n cystadlu roedd Molly Chisholm, Mared Enlli, Eirwen Howorth, Megan Ingle, Merlin Ingle, Elliot Meilleur a Gruff Evans. Daeth pawb adref gyda medal. Llwyddiant arbennig – llongyfarchiadau!





**Gweithdai Celf Ysgol Brynrefail gyda Catrin Williams**
Mae'r arlunydd Catrin Williams wedi bod yn gweithio gyda Bl8, 10, 12 ac 13 yn yr ysgol yn ddiweddar trwy gynnal gweithdai arbennig yn canolbwyntio ar fraslunio a pheintio delweddau o chwarelwyr a golygfeydd o chwarel Dinorwig. Rydym yn ffodus iawn i fod yr ysgol gyntaf i gymryd rhan yn y prosiect cyffrous yma! Bydd y gwaith terfynol yn gael ei arddangos yn yr Amgueddfa Lechi ym mis Tachwedd a Rhagfyr.
Catrin Williams yw'r arlunydd sydd wedi ei chomisiynu i gydweithio gyda ysgolion uwchradd y chwe ardal sydd wedi eu cynnwys yn y prosiect (Dyffryn Peris, Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle, Cwm Ystradllyn a Chwm Pennant, Blaenau Ffestiniog, Abergynolwyn a Thywyn) i greu darn o waith celf fydd yn cychwyn cael ei greu mewn un ysgol ac yn cael ei ychwanegu ato yn yr ysgol nesaf, fel bod y gwaith yn mynd ar siwrne rhwng yr ardaloedd chwarelyddol, ac yn creu un darn o waith celf trawiadol fydd yn cyfleu hunaniaeth yr ardaloedd i gyd. Pwrpas y gwaith celf fydd i ddathlu LleCHI wrth i gyfnod y prosiect hwnnw ddod i ben, ond hefyd i ddathlu'r dynodiad UNESCO.

Mae Cyngor Gwynedd ac ystod o bartneriaid trwy nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cynllun Lle Arbennig, Cronfa Partneriaeth Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod yn cydweithio â chymunedau ar gynllun sy'n cael ei gyfeirio ato fel LleCHI i ailgysylltu pobl gyda'u treftadaeth gyfoethog, i godi hyder a balchder ymysg trigolion a sbarduno adfywiad ein cymunedau.





**Dydd Gwener bod yn Glên – 8fed Hydref**
Er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiwrnod iechyd meddwl y byd – dydd Sul, 10fed Hydref fe benderfynon ni gael Dydd Gwener Bod yn Glên lle'r oedd pawb yn gwneud ymdrech i fod yn garedig hefo'i gilydd. Dyma oedd dymuniad y disgyblion ar gyfer y diwrnod
Pawb i helpu pobl / plant hefo'u gwaith
Plant ac athrawon a staff i ganmol ei gilydd
Sesiwn ffitrwydd a hwyl ar amser cofrestru
Amser cinio cael sesiwn yoga yn y gampfa a badminton yn y Neuadd Chwaraeon
Yr athrawon ddim i osod Gwaith Cartref ar y diwrnod!
Yn ychwanegol at hyn fe gafodd staff gyfle i ddod at ei gilydd amser egwyl am baned a chacen a sgwrs – rhywbeth tydyn nhw ddim wedi cael llawer o amser i'w wneud ers dechrau'r flwyddyn oherwydd prysurdeb yr ysgol ar hyn o bryd. Cawsom ddiwrnod braf yn staff a disgyblion a phawb wedi mwynhau'r gwahanol weithgareddau a'r cyfle i fod yn glên.
Bod yn glên am weddill y tymor
Bydd cyfle i'r disgyblion a'r staff roi bocs esgidiau yn anrheg Nadolig i blant llai ffodus mewn gwledydd eraill trwy gynllun T4U rydym ni'n ei gefnogi yma.
Byddwn yn casglu hen deganau yn yr ysgol er mwyn eu rhoi y Nadolig yma i blant sydd eu hangen yn yr ardal.
Byddwn yn casglu bwyd ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon erbyn y Nadolig.

**Canlyniadau gêmau cyfeillgar pêl-droed diweddar**
Blwyddyn 8:
Dyffryn Nantlle 5 – Ysgol Brynrefail 5

Blwyddyn 10:
Ysgol Dyffryn Nantlle 1 – Ysgol Brynrefail 9

# 10 DEG Y DYSGWYR

*Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.*



**Enw:** Emma Chappell
**Byw yn:** Deiniolen
**Fy ngwaith a diddordebau:** Dwi'n gweithio i gwmni o'r enw Dolen ac rydan ni'n darparu gwasanaeth Adnoddau Dynol i gwmnïau dros ogledd Cymru.

Yn fy amser sbâr, dw i'n hoff iawn o gerdded yn y mynyddoedd efo'r teulu, ond fel arfer wnewch chi ffeindio fi wrth rhyw gae pêl-droed yn cefnogi un o fy meibion!!

Dwi wrth fy modd yn y gegin hefyd, yn creu trîts blasus i bawb, dwi'n defnyddio llyfrau Elliw Gwawr, *Panad â Chacen*, a *Pobi*, maen nhw'n wych i ddysgwyr.

**1 Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg oherwydd**:
O'n i wedi disgyn mewn cariad efo fy mhartner, Arwel ac o'n i isio symud i Gymru a dechrau bywyd newydd.

**2 Fel hyn wnes i/rydw i'n dysgu Cymraeg:**
Mi wnes i ddechrau efo dosbarth nos yn Warrington cyn i mi symud i lawr. Wedyn dechreuais i ar cwrs Wlpan ar ôl i mi gyrraedd. Mi wnes i ddefnyddio 'Say Something in Welsh' hefyd.

**3 Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw:**
Y ffaith wyt ti'n gallu siarad a janglo efo pawb!

**4 Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw:**
Trio cofio y rheolau gramadeg pan wyt ti'n sgwennu

**5 Dyma fy hoff air neu ddywediad Cymraeg, a pham:**
Dwi'n licio cyfansoddion sy'n odli fel igam-ogam, pili-pala, dwmbwr-dambar neu heb siw na miw. Dwi ddim yn un am farddoniaeth, felly dwi ddim yn gwybod pam!!

**6 Gall siaradwyr mamiaith helpu dysgwyr drwy:**
Peidiwch ag ateb yn ôl yn Saesneg! Mae siarad tu allan i'r diogelwch o'r dosbarth yn anodd iawn i rai pobl, rhowch amser â chefnogaeth i ddysgwyr plîs i beidio codi ofn arnyn nhw. Mae awgrymiadau o eiriau lleol neu help ynganu yn help mawr hefyd.


**7 Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu:**
Pan wnes i ennill Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn 2017

**8 Fy nhro trwstan mwyaf wrth ddysgu:**
Dwi heb cael lot o broblemau i ddeud y gwir, ond dwi'n cofio trio siarad efo rhywun o de Cymru a doedd gen i ddim syniad be' oedd o'n deud!

**9 Rydw i/roeddwn i'n sbarduno fy hun i barhau i ddysgu drwy**:
Dwi'n trio herio fy hun bob tro, darllen llyfrau Cymraeg, gwatchio rhaglenni ar S4C a gwrando ar Radio Cymru, ond o'n i isio bod yn diwtor i helpu pobl eraill mwynhau dysgu hefyd, felly wnes i fynd ati i ennill cymhwyster dechrau dysgu a dros y ddwy flynedd ddiwethaf dwi wedi bod yn dysgu dosbarthiadau fy hun!

**10 Dyma mae'r iaith Gymraeg yn ei olygu i mi:**
Dwi wir wedi mwynhau fy nhaith dysgu Cymraeg, dwi wedi cyfarfod ffrindiau am oes, cael cyfleoedd anhygoel ac mae'r iaith wedi agor drysau i mi o ran fy ngyrfa a fy mywyd personol hefyd. Dwi'n ddiolchgar iawn i bawb sy wedi helpu fi dros y blynyddoedd a gobeithio fyddai'n gallu ysbrydoli a helpu pobl eraill, fel mae'r pobl yna wedi 'neud i mi.

## CROESAIR




**Ar draws**
1 Ychen gwyllt (6)
4 Dyfais ar ffurf cylch sy'n troi ar ddarn yn ei chanol (5)
7 Cau ac agor un llygad yn gyflym fel arwydd (6)
8 Treulio tir neu greigiau yn raddol gan ddŵr neu'r tywydd (5)
10 Metel gwyn (5)
11 Gair arall am ganwr (6)
12 Edau (6)
15 Gwylio'n llechwraidd (5)
18 Siarad â Duw i ofyn neu ddiolch am rywbeth(5)
19 Sefydliad sy'n derbyn cyfnewid a benthyca arian (4)
22 Y rhif o flaen pedwar (3)
23 Gofalu â chariad am rywun a bod yn gysur iddynt (8)

**I lawr**
1 Tref yng Ngogledd Cymru (8)
2 Americanwr (5)
3 Rhywbeth sy'n dynodi rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol(5)
5 Math o flwch ar ben uchaf y bibell wynt yn eich gwddf (7)
6 Mynd i'r dŵr i nofio (7)
9 Gweithred (3)
13 Cefn hir o fynydd (6)
14 Wedi'i wneud â llefrith (6)
16 Darn o bren gwydn wedi'i ddal ar ffurf hanner cylch gan linyn cryf (3)
17 Dawns fodern i gyfeiliant (5)
19 Rhan o'r corff sy'n cynnwys y stumog a'r perfedd [yn y de] (4)
20 Torri coed fesul darn bach ar y tro (4)
21 Er hynny (3)

**Atebion Croesair mis Gorffennaf**
**Ar draws:** 1 Cyndyn 4 Dathlu 8 Rotor 9 Abermo 19 Sur 11 Ddoe 12 Allan 13 Camlas 15 Eto 18 Iglw 19 Cenawon 22 Edifar 23 Caleb
**I lawr:** 1 Corws 2 Natur 3 Ymroddiad 5 Anelau 6 Lambastio 7 Dameg 13 Criced 14 Malais 16 Baw 17 Rasal

# WAUNFAWR

**Genedigaethau**
Croeso mawr i ddau fabi newydd mis yma. Ganwyd merch fach, Margo Lois Williams, i Alun a Lois, Glandwr, sy'n chwaer fach i Eban.

Hefyd, ganwyd mab, Eban Rees Llywelyn, i Guto a Gwenno, Groeslon, brawd bach i Leia a Cai. Dymuniadau gorau i chi gyd ar y magu.

**Cartrefi newydd**
Braf yw cael croesawu teulu newydd i Min y Grug, sef Heledd ac Aled a'r plant Ela, Erin a Twm. Un o Ddeiniolen yn wreiddiol ydi Heledd ac Aled o Lan Ffestiniog. Gobeithio byddwch yn hapus iawn yn byw yn Waunfawr.

Braf hefyd yw dymuno'n dda i Catrin a Dan yn eu cartref newydd yn Nhreflys. Hogan o Waunfawr ydi Catrin a Dan o Flaenau Ffestiniog. Mae mor braf gweld tai'r pentref yn cael eu prynu gan y genhedlaeth ifanc. Pob hapusrwydd i chi'ch dau.

**Profedigaethau**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Jeff Daniels, Stâd Tŷ Hen a gweddill y teulu. Bu farw Eleri, chwaer Jeff, yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Hefyd, cydymdeimlwn ag Edgar Owen, Glyn Awel a Keith Owen Stad Tŷ Hen a'u teuluoedd. Bu farw brawd Edgar a Keith, oedd yn byw ym Melffast.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo gyda theulu Brenda Jones, Tŷ Ni a fu farw yn ddiweddar. Roedd yn fam i Iolo ac Eurig, mam yng nghyfraith i Amelia a Saran ac yn nain i Brychan a Gwern. Symudodd Brenda yma gyda'i diweddar ŵr Iestyn, o Fetws Garmon, lle sefydlodd y ddau fusnes llwyddianus iawn ym Mryn Gloch. Yn ystod eu hamser yn rhedeg y maes carafannau, enillodd nifer o wobrau fel un o feysydd carafannau gorau Cymru. Mae'n braf bod Bryn Gloch yn parhau i gael ei redeg gan Eirug eu mab. Cofion atoch i gyd yn eich profedigaeth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Jason Lee Parry sydd newydd basio ei brawf gyrru. Da iawn chdi.

**Plaid Cymru**
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen dros Zoom a braf oedd gweld cynifer wedi ymuno.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn i ddod: Gareth Williams, Cadeirydd; Hawys Tuff, Is-gadeirydd; Iola Gruffydd, Ysgrifennydd; Nia Llwyd, Is-ysgrifennydd a John Gwynedd, Trysorydd. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn agored i'r holl aelodau. Bydd y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd am 7.00 PM a bydd linc Zoom yn cael ei anfon allan cyn hynny. Os oes gan aelodau neu bobl sydd â diddordeb dod yn aelodau syniadau am weithgareddau dros y gaeaf, neu bethau y medrwn fel cangen eu gwneud er lles y pentref a'r pentrefwyr, cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor os gwelwch yn dda. Croesewir pob syniad, y rhai gwych a'r rhai gwirion!

**Merched y Wawr**
Da oedd croesawu nifer dda o aelodau wrth ail-gychwyn tymor 2021 - 22. Cafwyd noson hwyliog gyda'r aelodau'n rhannu hanes rhywbeth sydd yn drysor iddynt.

Ni fydd cyfarfod ym mis Hydref oherwydd gwyliau hanner tymor, felly bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 25ain yn y dafarn, gyda dathliad Nadolig cynnar!

**Llwyddiant Pêl Droed**
Mae sgiliau Osian Tomlinson, Stad Croesywaun ar y cae pêl droed yn wybyddus i bobl Waunfawr ers blynyddoedd. Mae ei allu wedi cael ei adnabod rwan gan glwb Everton ac mae Osian bellach wedi ymuno â Choleg Everton FC. Rydym yn falch iawn ohonot Osian ac yn gobeithio byddi'n mynd o nerth i nerth. Hoffai Catrin Keller, mam Osian, ddiolch yn fawr i Janet a Pete Greasley am noddi Osian.

## Llwyddiant lleol – Cwmni Amdro



Mae twf ym mhoblogrwydd faniau campio'n amlwg drwy'r ardal erbyn hyn, a phwy feddyliai bod cwmni bach o Waunfawr wedi chwarae rhan mor flaenllaw yn y twf?

Iwan a Delyth Roberts, Trewen yw sefydlwyr cwmni Amdro, ac maent wedi profi llwyddiant anhygoel ers ei sefydlu yn 2004. Erbyn hyn, dylunio ac adeiladu dodrefnyn o'r enw 'bootjump' ar gyfer faniau bach neu ganolig maent yn ei wneud yn bennaf, sef adeiladu offer fydd yn gallu trawsnewid cefn y fan yn le i gysgu, ymlacio a choginio dros dro. Yn ddiweddar, bu adolygiad o'r 'bootjump' yng nghylchgrawn 'Camping and Caravaning' lle cafodd safon eu dyfeisgarwch a safon eu cynnyrch ei ganmol i'r entrychion. Arwyddair y cwmni yw Syml, Ymarferol, Cyfrifol – gan gyfeirio at eu hymrwymiad i weithredu mewn modd sy'n hybu gwarchod yr amgylchedd ym mhob agwedd o'u gwaith. Rydym yn ymfalchio yn eich llwyddiant ac yn dymuno'n dda i chi i'r dyfodol.

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Mae'n bleser gan Ysgrifennydd y Gangen Carol Houston, gyhoeddi, wedi hir ddisgwyl, y cynhelir cyfarfod o'r aelodau yn y Ganolfan, Llanberis nos Iau 18fed Tachwedd am 7.00 PM. Trefnir i gael Bwrdd 'Moes a Phryn' ar y noson. Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle i gymdeithasu am y tro cyntaf ers misoedd lawer a chael trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfamser bydd pob aelod yn derbyn llythyr o wahoddiad a manylion pellach am y cyfarfod.

**Yr Eglwys Bresbyteraidd**
Nos Sul, 19eg Medi cynhaliwyd gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson. Roedd cynulliad cryno o'r aelodau yn bresennol. Roedd yn achlysur arbennig gan ei bod yr oedfa olaf i ni ddod ynghyd fel aelodau o'r Eglwys Bresbyteraidd yma ym Mrynrefail. Cafwyd cyfle i roi gair o deyrnged am wasanaeth ein Gweinidog i ni fel eglwys ers 2012 fel rhan o Ofalaeth Glannau'r Saint. Dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad ddiwedd Hydref ac am ei wasanaeth arbennig i'r Gyfundeb. Â'i deulu ar ddwy ochr ei rieni yn hannu o'r pentref, yntau yn drawiadol iawn y Gweinidog olaf arnom fel eglwys.

Yn dilyn pleidlais unfrydol gyda'r 'Datganiad o Fwriad' i ymuno â Chapel y Rhos, Llanrug ar 18fed Gorffennaf ac a gadarnhawyd gan Henaduriaeth Arfon, cymerwyd y bleidlais derfynol ar y noson. Dan arolygiaeth dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth, roedd canlyniad y bleidlais yn unfrydol i ymuno fel cynulleidfa a blaenoriaid â Chapel y Rhos, a chadarnhawyd y penderfyniad mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth ar 29ain Medi.

Dros y blynyddoedd, er diogelu ein cenhadaeth, rydym yma ym Mrynrefail wedi addasu a symud ymlaen fel eglwys ar nifer o achlysuron. Hyderwn unwaith eto y bydd bendith ar ein penderfyniad i symud ymlaen a ffurfio Eglwys Unedig â Chapel y Rhos.

# Ysgol Waunfawr



Mae'r hanner tymor wedi bod yn brysur er gwaethaf y sefyllfa bresennol. Bu'r disgyblion yn brysur yn cyfeiriannu gyda Gwydion Thomas@Ar Y Trywydd o gwmpas tir yr Ysgol a phawb yn mwynhau cael bod yn yr awyr iach. Braf oedd gweld y disgyblion ieuengaf yn mynd am dro i chwilio am arwyddion yr hydref yn ddiweddar. Yr oeddent wrth eu boddau yn arsylwi mes, moch coed a dail amryliw o bob math.









**Clwb gwyddbwyll**
Sefydlwyd clwb gwyddbwyll yn yr ysgol yn ystod amser cinio. Mae'r disgyblion yn mwynhau yn fawr iawn ac wedi buddsoddi mewn byrddau chwarae newydd. Gwaith datrys problemau a dyfalbarhau gwych, diolch i Mrs Lisa Griffiths am eu hyfforddi.



**Gweithdy Lisa Eurgain Taylor**
Cafodd dosbarth Mynydd Grug fodd i fyw yn ddiweddar yn mynychu gweithdy celf rhithiol gyda'r artist wedi ei drefnu gan Pontio. Cafwyd ambell ddarn o waith ysbrydoledig iawn yn ystod y pnawn.

Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch yn y dosbarthiadau a diolch yn fawr i Mrs Susan Williams am anfon adnoddau atom unwaith eto.

**Rhieni a chyfeillion**
Sefydlwyd clwb 100 gan rieni a chyfeillion yr Ysgol er mwyn codi nawdd i'r Ysgol. Bydd yr enillydd yn ennill £25 ar ddiwedd y mis.

**De-ffibriliwr**
Mae Mrs Jacqueline Owen a'i merch Charline yn awyddus i gael peiriant de-ffib yn yr ysgol er budd y plant a'r staff. Bydd angen £1,000 er mwyn prynu'r offer a hyfforddi staff. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniadau at yr achos.

**Dysgu am dreftadaeth**
'Treftadaeth' yw thema dysgwyr CA2 am y tymor a byddant yn astudio arteffactau a llenyddiaeth sy'n cyfleu cyfnod y chwareli, gan drafod hefyd bwysigrwydd y 'treftadaeth' hwn i ni yma yn Waunfawr erbyn heddiw.





**Llongyfarchiadau**
Bu i ddau ddisgybl lwyddo i ennill tystysgrifau aur mewn Mathletics y tymor hwn. Tipyn o gamp a dyfalbarhad.

**Beicio**
Llwyddodd y disgyblion hynaf i basio eu cymhwyster beicio. Diolch yn fawr i'r rhai a fu'n eu hyfforddi. Da oedd gweld pob un ohonynt yn cymryd yr ochr ddiogelwch o ddifrif ac yn gwisgo helmed.






**Pêl-droed**
Mae'r Urdd a Chlwb Pêl-droed Y Bala yn cynnal sesiynau yn wythnosol yn yr Ysgol ac mae sgiliau'r plant yn datblygu'n dda o wythnos i wythnos.

# Becws Waunfawr - Atgofion o'r flwyddyn 1932: Rhan 2



Merch fferm o ardal Betws Garmon oedd Mary Pritchard fy mam cyn iddi briodi â John Awstin Jones fy nhad ym mis Gorffennaf 1932. Mewn llyfr nodion, neu'r 'copi bwc' a gadwai yn ystod y saithdegau mae hi'n sôn sut y bu i batrwm ei bywyd newid yn gyfan gwbl ar ôl priodi a symud i fyw i'r Waunfawr, sef pentref a chymdeithas wahanol iawn i'r hyn yr oedd wedi arfer ag o ym mro ei mebyd ym Metws Garmon. – Gwilym Morris Jones.

Mae'r hanes isod wedi ei gymryd o'r 'Copi Bwc' hwnnw, ac mae'n dilyn ymlaen o'r rhan gyntaf a gyhoeddwyd yn yr Eco fis Hydref.

**Rhan 2**

Bob bore deuai Elin Huws i ben y clawdd i alw. Roedd Elin Huws yn byw yn y tŷ cyntaf o dri ar y gwastad â'r becws, a byddai bob amser eisiau torth a honno wedi llosgi. Wnai'r dorth ddim o'r tro os na byddai crystyn du arni. Roedd ganddi bob amser lawer i ddweud wrthyf. Wedi bod yn gweini yng Nghastell Cidwm pan yn ferch ifanc meddai, cyn priodi â Wmffra Huws a symud i fyw yn y Cwirt. Roedd wedi magu ei phlant yn ardal Salem, ac roedd y rhai fenga ohonynt yr un oed â Jane a Bob fy chwaer a'm brawd hynaf, ac yn mynd i'r ysgol â'i gilydd. Cefais lawer o sgyrsiau gyda Elin Huws dros y clawdd, a gresyn na feddyliais ar y pryd am gofnodi yr holl ddywediadau a'r hanesion difyr a adroddai am bethau a gofiai amdanynt. Roedd 'rhen Elin erbyn hyn yn hen wraig ac yn un hynod fel cymeriad. Gwisgai het frown dros ei phen a'i thalcen, a siôl liwgar dros ei gwar efo *brooch* yn ei gau dan ei gên. Barclod wen laes am ei chanol wedi ei wneud o fag blawd lliain o'r becws, a chlocsiau am ei thraed. Sgwrsiai Elin Huws gyda phawb, boed nhw'n ddieithr, yn Gymry neu Saeson fel ei gilydd. Edrychid arni yn y pen yma o'r ardal fel rhan o'r Waun. Arferai estyn cwpanaid o de i mi bron bob bore dros y clawdd a dweud wrthyf am ei yfed tra roedd yn boeth. Diolchwn iddi amdano ac awn â'r gwpan i'r becws o'r golwg. Fedrais erioed ei yfed. Yn un peth, doedd y gwpan ddim yn un gynhesol o gwbl. Crac du o'r top i'r gwaelod a'r tê yn colli yn ddyferion drwyddo. Roedd y tê i'w weld yn gryf a llugoer. Taflwn y tê yn syth i'r twll lludw dan y popty a golchi'r gwpan ac aros am ychydig gan gymryd arnaf fy mod wedi ei yfed. Byddai'r hen wraig bob amser wrth ei bodd yn canmol wrth bobl fel y byddai'n rhoi paned i mi bob bore dros y clawdd.

Roedd ffenest fechan yng nghefn y becws a gallwn weld lawr at yr Afon Wyrfai a Chlogwyn Cyrnant ohoni. Ond yn amlach na pheidio, byddai Jac Becar wedi plygu'r bagiau blawd gwag a'u rhoi ar silff y ffenest fel na allwn weld dim. Roedd gardd gefn Elin Huws tu ôl i'r becws, ac yn union o dan y ffenest roedd ganddi dwb golchi mawr ar stand, a llawer gwaith y bum yn gwrando arni yn canu wrth olchi dillad. Emynau a ganai bob amser. Roedd ganddi lais nodedig o dlws a ffordd nodedig o'u canu. Llusgo ychydig weithiau, tipyn o fynd dro arall a slyrio ychydig wedyn. Rwy'n cofio ei chlywed un bore yn canu a thafodi bob yn ail. 'Yn-y-dyfr-, "WMFFRA! dos i dorri pricia tân"! '-oedd-mawr-a'r-tonn-au', "WMFFRA!, torra bricia!, mi rwyt ti'n ddiog fel ffwlbart!" '-pwy-a-ddeil-fy-mhen-i'r-lan?' "WMFFRA! ma' pobol yn sôn amdanat ti yn ddiog, torra bricia!" Ambell dro deuai Dafydd y mab i'r ardd, a rhôi yntau donc ar ganu efo'i fam. Llais bâs fel Paul Robeson ganddo a minnau'n cael pleser o'u clywed heb iddynt wybod. Chanai Dafydd ddim pe tae rhywun yn gofyn iddo reit siwr. Clywais hanes am Elin Huws pan roedd hi'n byw yn 'Gwyrfai Teras', fel yr oedd dau ddyn oedd wedi eu codi i hel casgliad at achos da yn dynesu at y tŷ ac yn clywed Elin Huws yn fflamio â rhegi'r plant, ac yn addo pob cosb arnynt. Roedd y dynion mewn penbleth, pa un ai troi yn ôl ynteu mentro at y drws fyddai orau. Ond yno yr aethant, ac wedi curo ar y drws daeth tawelwch. Yna, llais Elin Huws i'w glywed yn dweud yn dyner, "Wel rŵan y mhlant i, deudwch eich pader efo eich gilydd, dyna ni blant da!"

Yn yr ail dŷ roedd Sara Jones yn byw ar ei phen ei hun, a deuai hithau i ben y clawdd i alw arnaf pan fyddai arni eisiau torth, ac os na fyddwn yn ei chlywed, taflai gerrig at y drws i dynnu fy sylw. Un braidd yn sarrug oedd Sara Jôs. Hen ddynes filain ac annymunol a llais crâs fel cigfran ganddi. Fedrwn i yn fy myw glosio ati. Roedd ganddi wallt hardd, yn donnau trwchus, a byddai bob amser yn gwisgo cêp ddu laes yn cyrraedd hyd at ei chrymogau. Arferai ddod â'i chinio i ben y clawdd i mi ei roi yn y popty. Dysglaid o bwdin reis ran amlaf, a phan ddeuai'r bwtsiar, byddai ganddi ddysgl enamel efo darn o gig, a dwy neu dair o datws a nionyn mewn dŵr ynddo. Mi fyddai ei bawd bob amser o'r golwg yn y bwyd. Roedd ganddi fawd pur fawr a chraith lydan ar ei ben yn ei wneud i edrych braidd fel pawen, ond ni fentrais erioed ofyn iddi beth oedd yn cyfri amdano. Dywed John Leathley ei nai mai gwneud niwed wrth ladd ceiliog hefo bwyell wnaeth hi.

Yn y trydydd tŷ yr oedd Miss Morgan yn byw. Roedd honno yn gymeriad mor hynod â'r un erioed. Nis gwelais hi erioed yn dod ymhellach na phen y drws, a dim ond ei hanner fyddai yn y golwg yr adeg hynny. Byddai ganddi ddigon o dwrw ar adegau, a galwai yn aml ar Elin Huws, a hynny mewn llais main. "Ee-lin (sóh-sóh) Huu-wws!(dóh-dóh)! dowch yma i hel y llygod allan!" Yna deuai Elin Huws allan o'r tŷ dan waeddi. "Be di matar yn fanna nenw'r tâd!" "Llygod yn rhedag o nghwmpas i ymhobman, dowch yma i'w hel nhw allan!" Cydiai Elin Huws mewn brws llawr a mynd yno gan ddechrau waldio'r llawr a' dodrefn a churo ei thraed nes bod ei chlocsiau yn clecian. "Allan â chi y tacla!" gwaeddai, gan haldiwario a sgyrnygu. "Ma' nhw wedi mynd i gyd rwan, mi gewch lonydd am sbel, dwi wedi dychryn digon arnyn nhw!" Rhen Fiss Morgan yn piffian chwerthin, ac Elin Huws yn dod oddi yno gan dafodi rhwng ei dannedd, "Neno'r tad, does byd ar y ddynas dudwch yn creu y ffashwn styrbans, yr hen gyrbiban iddi!" Mi ddaliodd Sara Jôs gath y becws un tro a'i chau yn nhŷ Miss Morgan, gan feddwl y buasai hynny yn ei phlesio. Roeddem yn methu â gwybod lle roedd y gath wedi mynd nes i rhywun ei gweld yn ffenest llofft Miss Morgan. Awd i holi yn ei chylch, ond roedd Sara Jôs yn gwadu nad aeth â'r gath, ac nid ein cath ni ond un Miss Morgan oedd hi. Elin Huws waredodd y gath drwy adael y drws yn agored. Roedd y greadures wedi ei chau i mewn am ddyddiau a gellir dychmygu sut olwg oedd ar ei hôl.




SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis. Diolch yn fawr.

**Diolch**
Hoffai Dafydd, Darren, Shane, a Louise Price, ddiolch am yr holl gardiau cydymdeimlo, geiriau caredig a rhoddion a dderbyniwyd er cof am wraig, mam, a nain arbennig iawn, Maira Wyn Price. Casglwyd swm o £1,258.60, sydd wedi ei roi fel rhodd i Alzheimer's Research UK, elusen a oedd yn agos iawn at galon Maira.

**Diolch**
Yn dawel yn Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, bu farw ar y 18fed o Fedi 2021, Diana G Pritchard, o 11 Ceunant Street Llanberis yn 88 mlwydd oed. Gwraig y diweddar John Alwyn, mam gariadus Avril a John, mam yng nghyfraith Gwyneth, nain i Carys, Anest, Enlli, Mabon a Iago a hen nain i Alaw, Siwan, Tesni a Mali. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Capel Coch ar y 27ain o Fedi ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris. Dymuna Avril, John, Gwyneth a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd wedi iddynt golli Mam, Nain a Hen Nain arbennig iawn. Gwerthfawrogwn yr holl gardiau a galwadau ffôn, ynghyd â'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Diana tuag at Uned Clefyd Parkinson Ysbyty Eryri Caernarfon.


**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11AM. Hefyd, bydd Cymun Bendigaid am 8AM ar y trydydd Sul o bob mis.

Enillwyr Clwb Cant mis Medi oedd: 1. Owain Rees Jones; 2. Iola Sellers; 3. Freda Jones; 4. Ann Roberts; 5. Valerie Griffith

**Gŵyl Diolchgarwch yr Eglwys:**
Dydd Gwener, 29 Hydref, 10 a.m. - 3 p.m. – Derbynnir nwyddau tuag at Fanc Bwyd Arfon
Dydd Sadwrn, 30 Hydref, 10AM - 4PM – Siop Cynnyrch Cartref
10AM - 12PM – Bore Coffi
12PM - 2PM – Cinio pensiynwyr a phobl ddigartref. Bydd angen archebu cinio o flaen llaw drwy ffonio Heather ar 07867982518 neu Dilys ar 01286871423.
Dydd Sul, 31 Hydref, 11AM – Offeren Diolchgarwch
5PM – Gwasanaeth unedig Bro Eryri, a swper.

**Capel Coch**
Rydym yn parhau'r drefn o gynnal oedfaon bob pythefnos pan fydd y Gweinidog yn pregethu yma, ar yr ail a'r pedwerydd Sul o'r mis. Felly, bydd oedfaon yn y Capel am 10AM fore Sul Tachwedd 14 a 28. Cawsom oedfa ychwanegol fore Sul Hydref 3 pan groesawyd teuluoedd yr Ysgol Sul yn ôl i'r Capel am y tro cyntaf ers deunaw mis ar gyfer Gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal Susan Williams. Cymerwyd rhan hefyd gan Dafydd Pritchard a'r Gweinidog. Roedd yn braf iawn gweld y plant a'u teuluoedd eto.

**Ysgol Sul Capel Coch:**
Dros gyfnod y Cloi a'r pandemig, cynhaliwyd yr Ysgol Sul bob wythnos trwy gyfrwng Zoom, ond byddwn yn ail ddechrau'r Ysgol Sul yn y Capel fore Sul, Tachwedd 7. Ar y cychwyn, bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod bob pythefnos, ar Dachwedd 7 a 21. Diolch i bawb sydd wedi addo bod yn rhan o'r gwaith o'i chynnal dros y misoedd nesaf.






# Aelodaeth Yr Urdd ar agor i blant a phobl ifanc Cymru

Bydd 2022 yn flwyddyn arbennig i'r Urdd, gyda'r mudiad yn dathlu ei ganmlwyddiant. Sefydlwyd y mudiad gan Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1922 gyda'r bwriad o amddiffyn y Gymraeg ac erbyn heddiw mae 55,000 o aelodau'n mwynhau profiadau unigryw a chyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg.

I nodi'r achlysur, bydd llwyth o weithgareddau a digwyddiadau hwyliog i blant a phobl ifanc o 8 i 25 oed yn cael eu trefnu ledled Cymru yn ystod 2022.

O chwaraeon i'r celfyddydau, gwaith dyngarol i wirfoddol, mae'r Urdd yn cynnig cymaint i blant a phobl ifanc Cymru. Ac ym mlwyddyn y Canmlwyddiant, dyma gyfle i blant a phobl ifanc Cymru fod yn rhan o hanes.

Mae pris aelodaeth eleni yn £10 y plentyn neu aelodaeth teulu am £25 (ar gyfer tri neu fwy o blant). Mae'r Urdd hefyd yn cynnig aelodaeth am £1 i unrhyw blentyn sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy gynllun cinio ysgol am ddim. Gallwch ymaelodi drwy'r wefan: www.urdd.cymru/ymuno

Ddim rhwng 8 a 25 oed ond yn awyddus i fod yn berchen ar fathodyn i nodi Canmlwyddiant yr Urdd? Mae rhoddion ariannol yn gymorth mawr i'r Urdd barhau i drefnu a chynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac maent yn hynod ddiolchgar am bob rhodd. Eleni, gyda phob cyfraniad dros £20, bydd cefnogwyr yr Urdd yn derbyn bathodyn trwy'r post. Am wybodaeth bellach, mae croeso i chi fynd i'r wefan: www.urdd.cymru/cyfrannu



# Marwolaeth ar Foel Eilio



Dyma'r englynion gan Dafydd Ddu Eryri i goffau John Closs, y bachgen seithmlwydd oed a fu farw ar Foel Eilio ym mis Rhagfyr 1805.

"Ar ben mynydd dydd y daith – o'i hoywder
A ehedodd ymaith;
Gadewais, gwelais goeg waith
Drueni'r byd ar unwaith.

Oerfel fu uchel achos – i angau
Llym ingol i'mddangos;
Mantell niwl mewn tywyll nos
A dychryniad dechreunos."

Ar ei fedd ym mynwent y plwyf yn Nant Peris dywedir mai mab Robert Closs oedd y bachgen. Ond does dim sôn am ei fam. Y dyddiad ar y garreg yw 21 Rhagfyr 1805, ond does dim sicrwydd ai dyddiad ei farw, ei ganfod yn farw neu ei gladdu yw hwnnw. Mae'r hanes yn eithaf adnabyddus. Roedd y bychan yn aros gyda'i nain yn Nant y Bettws, ac wedi ceisio dilyn ei fam dros y mynydd yn ôl am y cartref yn Nhy'n Llan. Collodd ei ffordd, a chanfuwyd ei gorff ar Foel Eilio. Dyna'r esgyrn sychion, ond anodd darganfod y gwir ffeithiau am yr hanes, a hynny dros ddau gan mlynedd wedi'r digwyddiad.

Dyma ychydig mwy o ffeithiau am yr hanes, ac ambell gwestiwn na chawn fyth ateb iddynt mae'n debyg. Adroddwyd yr hanes yng ngholofn 'Adgof uwch Anghof' yn *Y Genedl Gymreig* ym mis Tachwedd 1890, ac wedyn gan Carneddog yn rhifyn Mehefin 1901 o *Cymru'r Plant*. Roedd hyn bron i ganrif wedi'r digwyddiad, ac mae'n debyg fod y ddau awdur wedi pwyso'n drwm ar gof gwerin am yr hanes.

Priododd Robert Closs (oedd yn cadw tafarn Ty'n Llan yn Nant Peris) gydag Elin Hughes yn eglwys Betws Garmon yn 1795. Roedd Elin yn ferch i Humphrey Hughes, Caeaugwynion ac Elizabeth Williams, Ystrad; dwy fferm sylweddol o fewn plwyf Betws Garmon. Mae Caeaugwynion ar lannau Llyn Cwellyn, a'r Ystrad yn agos at eglwys y plwyf; y naill yng nghysgod y Foel Gron a'r llall yng ngodre'r Foel Eilio.

Ganed deuddeg o blant i Humphrey ac Elizabeth. Y mab hynaf, Humphrey arall, fu'n ffermio Caeaugwynion wedi marwolaeth ei dad. (Bu iddo yntau bymtheg o blant o'i ddwy briodas!) Yr Elizabeth hon oedd nain John Closs.

Mae'r ddau adroddiad (1890 a 1901) yn nodi mai yn y Caeaugwynion yr oedd John Closs yn aros gyda'i nain. Mae un yn honni mai cael ei fagu gan ei nain oedd y bychan. Erbyn 1805 roedd Elizabeth yn wraig weddw, 65 oed – bu Humphrey, ei gŵr, farw yn 1803 yn 73 mlwydd oed. Felly, roedd Humphrey y mab wedi cymryd gofal o'r fferm ers marwolaeth ei dad, os nad cynt.

Mae adroddiad Carneddog yn awgrymu fod Elin, mam John Closs wedi dringo'r llethr am Fwlch Maesgwm er mwyn cyrchu am adref yn y Nant Ucha. Mae hyn yn ddigon rhesymol. (Mae bron iawn yn cyfateb i lwybr presennol y Snowdon Ranger.) Ond os penderfynodd y plentyn seithmlwydd ddilyn ei fam ar hyd y llwybr hwnnw, sut yn y byd y cyrhaeddodd gopa Moel Eilio? O Fwlch Maesgwm byddai'n rhaid iddo ddringo llethr serth y Foel Goch cyn disgyn i'r bwlch uwch Cwm Dwythwch a dringo wedyn i gopa'r Foel Gron a thrwy Fwlch Cwm Cesyg cyn dringfa serth arall i gopa Moel Eilio. Ac yn ôl adroddiadau, roedd yn storm o eira ac yn niwl trwchus hefyd.

Mae fersiwn 1890 yn rhoi adroddiad gwahanol. Dywedir mai ar gefn ceffyl y daeth y fam drosodd i Nant y Bettws. Hebryngwyd hi gan y nain a'r plentyn i Fwlch y Groes. Tra'n gwylio'r fam yn marchogaeth i lawr y llwybr am Gwm Tŷ du y penderfynodd John Closs ei dilyn, ond collodd ei ffordd yn y niwl, ac aeth ar goll ar lethrau Moel Eilio. Mae'r fersiwn hwn yn fwy credadwy ynglŷn â sut y cyrhaeddodd Foel Eilio, ond os mai yng Nghaeaugwynion roedd y nain yn byw, pam marchogaeth a cherdded yr holl ffordd i gyfeiriad Eglwys Betws Garmon cyn dringo'r llethrau uwchben yr Ystrad a thros ystlys Moel Eilio am Fwlch y Groes?

A oes posibilrwydd mai yn yr Ystrad roedd y nain yn byw? Roedd ei gŵr wedi marw yn 1803 a'i mab wedi cymryd drosodd reolaeth fferm Caeaugwynion. Roedd hi'n enedigol o'r Ystrad, ac yn wraig weddw, gallai fod wedi dychwelyd at ei theulu yno. Byddai teithio o'r Nant Ucha i'r Ystrad yn llawer mwy hwylus ar y llwybr a arweiniai drwy Fwlch y Groes.

Pwy tybed sylweddolodd fod y plentyn ar goll – y fam ynteu'r nain – a pha bryd? Dywedir mai cŵn hela Penrhos ger Caeathro ddaeth ar draws y corff wrth hela llwynogod. Oes gwir yn y stori honno tybed?

Wrth gwrs, chawn ni byth wybod bellach!


Diddorol hefyd yw nodi dau gysylltiad teuluol arall. Mae'n amlwg fod Elin, mam John Closs, wedi etifeddu rhan o dir fferm Caeaugwynion wedi marwolaeth ei thad. Yn 1841 ar Fap Degwm Betws Garmon, nodir mai Robert Closs yw perchennog 'quillet' (a enwir yn Cwirt yn ddiweddarach), sef y darn tir sydd heddiw wedi ei amgylchynu gan goed ac wedi ei leoli ar y chwith ar y tro yn y ffordd cyn croesi pont y tren am Gastell Cidwm. Mae olion adfail bwthyn yno. Y Robert Closs hwn oedd brawd John Closs.

Wedi claddu John Closs druan yn 1805, ail-agorwyd y bedd 67 mlynedd yn ddiweddarach. Yno y claddwyd Elizabeth Williams, merch ifanc 26 oed o Ty'n Llan. Byddai John Closs pe bai wedi cael byw, yn ewythr iddi, merch ei chwaer Elizabeth, a briododd William Williams, ac a fu'n cadw Ty'n Llan am flynyddoedd.

Mae disgynyddion y Clossiaid yn niferus. Y mae'n sicr fod disgynyddion deuddeg plentyn nain John Closs a phymtheg plentyn ei mab hynaf yn lluosog iawn hefyd. Tybed oes unrhyw un ohonynt efo'r fersiwn cywir o hanes y farwolaeth ar Foel Eilio?

**Rasys Beics**

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd beicio wedi dod yn boblogaidd iawn,




a phrynu beic o fewn cyrraedd nifer go dda o drigolion yr ardal. Mae'n amlwg fod Clwb Beicio wedi ei sefydlu ym Mangor yn weddol gynnar, a cheir amryw adroddiadau am yr aelodau'n trefnu teithiau i Lanberis ac i fyny'r Bwlch ar benwythnosau. Rhaid cofio fod taith o'r fath yn debygol o gymryd diwrnod bryd hynny – gan gynnwys amser i gael lluniaeth. Roedd cyflwr y ffyrdd yn ddrwg – doedd dim coltar, a gallai'r wyneb fod yn llychlyd a llawn cerrig rhydd neu'n fôr o fwd yn ddibynnol ar y tywydd.

Ond gallai beic eich cario i rannau o'r wlad nad oedd coets fawr na thrên yn eu cyrraedd. A daeth yr elfen gystadleuol i fod, gyda rasys beics yn cael eu cynnal mewn amryw o ardaloedd, yn enwedig mewn 'arddangosfeydd' neu sioeau pentref. Roedd cynnal ras filltir ar feic yn beth eithaf cyffredin, gyda chategoriau gwahanol ar gyfer y beicwyr.

Cynhaliwyd tair o rasys beics yn Arddangosfa Llanllyfni ym mis Medi 1898, a beicwyr o fro'r "Eco" fu'n llwyddiannus. Nid yw pellter y rasys yn cael eu nodi, yn anffodus. Yn y ras agored i unrhyw feiciwr, daeth gŵr o'r enw Richard Williams yn fuddugol, a rhoir ei gyfeiriad fel Hen Shop, Waunfawr. Fo hefyd oedd yn fuddugol mewn ras arall i feics, a honno wedi ei chyfyngu i chwarelwyr yn unig. Does wybod sut roedd trefnwyr y ras yn sicrhau mai yn y chwarel roedd pob cystadleuwr yn gweithio!

Roedd y drydedd ras feics wedi ei chyfyngu i rai oedd yn marchogaeth Sunbeam Cycle, a honno wedi ei noddi gan y cwmni, a oedd â siop yng Nghaernarfon. Cynigiwyd medal aur i'r enillydd, a gŵr o'r enw Charles Walker, Cae'r meinciau, Llanberis oedd yn fuddugol. Er mwyn sicrhau nawdd gan y cwmni ar gyfer y flwyddyn ddilynol, roedd pwy bynnag a anfonodd yr adroddiad i'r wasg wedi gwneud yn siwr fod cwmni Sunbeam Cycle yn cael sylw haeddiannol, gan nodi fod Richard Williams, enillydd y ddwy ras arall, hefyd yn defnyddio beic Sunbeam!

Mae'r llun yn dangos y 'Scorching Sunbeam'; beic rasio cynnar – heb frêcs! Beic fel hyn tybed oedd gan feicwyr rasys Llanllyfni?

Tybed oes gan unrhyw un o'r darllenwyr atgofion neu wybodaeth am rai o'r rasys beics hyn – neu a oes medalau'n cuddio yng nghefn droriau yn nodi rasys eraill yn y fro?

# Garddio

## TACHWEDD

**Yn yr ardd flodau**
Nid yw'n rhy hwyr i blannu cennin Pedr. Gallwch eu plannu mewn potiau amrywiol a chael sioe dda yn y gwanwyn. Rŵan yw'r amser i blannu tiwlip (hyd ddiwedd mis Tachwedd a dweud y gwir).

Gallwch blannu hyacinth mewn potyn ar gyfer y gwanwyn (os nad ydach chi eisoes wedi plannu rhai ym mis Awst ar gyfer y Nadolig).

Plannwch goed rhosod.

Codwch y dahlia, gladioli a'r begonia.

Cuddiwch beth o'r celyn sydd ag aeron arnyn nhw, rhag i'r adar gael y cyfan cyn y Nadolig.

Cofiwch glirio/cribinio dail oddi ar y lawnt pan gewch chi ddiwrnod sych (maent yn ddefnyddiol i greu deilbridd *'leaf mould'* – fel nodwyd yn y rhifyn Hydref). Mae hefyd yn llesol i roi bwyd hydrefol pwrpasol i'r lawnt sy'n uchel mewn ffosffatasau (*phosphates*) a photash i hyrwyddo gwreiddiau cryf. PEIDIWCH â defnyddio gwrtaith y gwanwyn sy'n digwydd bod dros ben ganddoch yn y sied neu'r garej – bydd y nitrogen yn hwn yn creu tyfiant meddal fydd yn cael ei niweidio gan rew a barrug. Er mwyn gwella'r draeniad a lleihau'r cywasgiad defnyddiwch fforc neu awyrydd (*aerator)* i wneud tyllau yn y lawnt ac yna sgubwch dywod lawnt i'r tyllau.

Trwsiwch unrhyw ddarnau o'r lawnt sydd wedi gwisgo gan eu llenwi gyda chompost. Heuwch hadau gwair i'r ardal neu rhowch dywarchen yn lle'r darn sydd wedi gwisgo. Os ydych chi'n torri'r lawnt mewn cyfnod sych, gosodwch y llafnau'n uchel. Cofiwch mae'r gwair yn parhau i dyfu ar 5°C (41°F). Rhedwch strimiwr (*strimmer)* dros yr ymylon neu defnyddiwch siswrn i'w cadw'n daclus.

Mae Noson Tân Gwyllt yn llawn ffrwydradau o liw. Gallwch greu sioe dda yn yr ardd trwy ddefnyddio planhigion sy'n debyg i siâp tân gwyllt ac yn arddangos yr un lliwiau poeth. Mae dail y coed *acer* yn creu fflamiau o liw a'r dahlias a llygaid y dydd megis rudbeckia a helenium yn dal ati i roi lliw yn y borderi. Gall y gweiriau a miscanthus ddal i saethu i fyny fel rocedi ac mae'r Ffarwel haf neu'r blodau Mihangel (*Michaelmas daisies*) a'r gorchwraidd (*heuchera*) yn parhau i roi lliwiau pinc a phiws ac yn darparu pryd o neithdar hwyr i wenyn a gloynod. Pan yw'r blodau wedi pallu gall aeron a choesynnau llwyni, megis y tân-ddraenen (*pyracantha*), euonymus a'r creigafal (*cotoneaster*) greu lliw a bwyd i'r adar. Mae'r mwcog (hips and haws) ar y coed rhosod hefyd yn hyfryd.

Mae'n gerddi ni fel caffi i adar a phob math o fywyd gwyllt. Mae'r lawnt yn le ardderchog i'r fronfraith a'r aderyn du i ddawnsio ar ei hyd gan wrando am y danteithion pryfetach sydd yn byw o dan yr wyneb. Bydd y robin yn gwylio o frigyn coed am symudiadau gan ddod lawr i ddal chwilod a nadroedd cantroed. Cefais gysur y llynedd yn gwylio aderyn du yn bwyta pob un aeronen o goeden creigafal roeddwn wedi ei phlannu yn yr hydref. Bydd mwy iddo fo a'i deulu eleni, gan fod y llwyn wedi tyfu ychydig yn fwy, ac mi gaf i hwyl gobeithio yn ei wylio yn hel ei fol eto eleni. Bydd y drudwy hefyd yn hela cynrhon y pryf teiliwr (*leatherjackets)* o'r lawnt. Peidiwch â bod yn rhy daclus – gadewch ambell i blanhigyn sydd wedi mynd i had a gadewch ambell i batsyn o ddail i'r adar gael hwyl





yn turio drwyddyn nhw neu i gath redeg ar eu holau!

**Yn yr ardd lysiau**
Codwch y pannas ar ôl iddyn nhw gael y barrug cyntaf, bydd eu blas yn well bryd hynny. Os am biclo cabaets coch – mae'n hen goel eu bod hwythau hefyd yn well ar ôl y barrug cyntaf.

Gallwch rannu riwbob wedi iddyn nhw gysgu dros y gaeaf.

Dyma'r amser i wasgaru tail dros y gwely llysiau er mwyn iddo bydru'n dda dros y gaeaf.

Mae'r dail salad wedi dal ati drwy fis Hydref – gawn ni weld sut fyddan nhw pan fydd gwyntoedd oer Tachwedd yn eu taro.

**Cyffredinol**
Gallwch blannu mafon rŵan er mwyn cael cnwd blasus yn yr haf.

Gallwch hefyd hau pys pêr (mae potiau 3 modfedd neu ganol rholyn papur toiled yn gweithio'n dda). Rhowch nhw ar silff ffenest neu mewn tŷ haul (*conservatory)* i egino. Does dim angen gwres arnynt wedyn – gallwch eu cadw mewn tŷ gwydr (heb wres) neu o dan gloch wydr (*cloche*), ar silff ffenestr mewn cwt/sied neu eu gadael allan mewn lle eithaf cysgodol (ceisiwch eu cadw allan o ryferthwy'r gwynt a rhag barrug). Eich gwobr fydd sioe o flodau persawrus cynharach.

Edrychwch ar y ffrwythau sydd wedi eu storio, rhag ofn bod rhai drwg yn eu canol.

Gallwch dorri ychydig ar y coed afalau a'r gellyg ac yna eu torri ymhellach ar ôl y Nadolig pan gewch chi ddiwrnod sych a braf.

Mi fyddwch wedi cynaeafu'r mwyafrif o'ch cynnyrch ac wedi bwyta'r mwyafrif ohonynt. Os yw'n oer ac yn wlyb beth am ddefnyddio peth o'ch cynnyrch i greu danteithion i'ch cysuro drwy fisoedd oer, gwlyb a gwyntog y gaeaf. Dyma rysáit syml i ddefnyddio afalau na wnaiff gadw a chreu picl betys coch bendigedig. Cefais y rysáit gan ddiweddar ffrind annwyl a byddaf yn ei chofio bob tro fyddai'n ei baratoi:

**Picl Bitrwt Berta**
3 phwys (1350g) o fitrwt wedi eu coginio a'u gratio.
1 pwys (450g) o nionod, wedi eu gratio
1 pwys (450g) o afalau, wedi eu gratio
1 pwys (450g) o siwgr gwyn bras (*granulated*)
1 peint (570ml) o finag (efallai ychydig yn llai)

Rhowch yr holl gynhwysion mewn sosban fawr. Codwch nhw i ferwi ac yna eu mudferwi am 15 i 20 munud. Rhowch dro i'r gymysgedd bob yn hyn a hyn. Rhowch y picl i mewn i jariau sydd wedi eu cynhesu a chau'r caeadau'n dynn. Gallwch fwyta'r picl hwn ar unwaith, ond mae'n cadw'n dda hefyd ac yn ardderchog efo cigoedd oer neu gaws.

O.N. - Yr hen fesurau '*Imperial*' rwyf i'n eu defnyddio (mae gen i glorian sy'n dangos y rhain) ond rwyf wedi dilyn y trosiadau mae Delia Smith yn eu defnyddio yn ei llyfrau hi i'r rhai ohonoch sy'n hapusach efo gramau a mililitrau.
***Rhosyn Mynydd***







# Cyngor Cymuned Llanberis

## 8fed Medi, 2021

**CYFLWYNIAD:** Wedi croesawu'r aelodau yn ôl ar ôl bwlch yn y cyfarfodydd ym mis Awst estynnodd y Cadeirydd groeso i Lowri Hedd Vaughan sydd wedi ei phenodi i weithio i DEG (Datblygiadau Egni Gwledig) fel swyddog Prosiect GwyrddNi Ardal Llanberis am ddwy flynedd.

Bydd ei gwaith yn ymwneud â newid hinsawdd gyda'r bwriad o ddenu pobl leol i fod yn weithredol yn y maes hwn. GwyrddNi ydi partneriaeth o bump o fudiadau cymunedol (Cyd Ynni, Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths, Cwmni Bro Ffestiniog ac YnNi Llŷn) yng Ngwynedd sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn gweithredu trwy DEG sydd newydd sicrhau dros £560,000 o arian o Gronfa Hinsawdd Gronfa Loteri Gymunedol Genedlaethol. Dros y ddwy flynedd nesaf dywedodd Lowri Hedd Vaughan ei bod yn gobeithio, wrth weithio'n lleol, y bydd GwyrddNi:

- Yn sefydlu a chynnal 20 cynulliad hinsawdd i ddinasyddion, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau i daclo newid yn yr hinsawdd ac i ddatblygu maniffestos hinsawdd cymunedol.
- Cyflwyno cynlluniau a arweinir gan y gymuned i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Cysylltu â chymunedau i ddatblygu mudiad sy'n gweithredu dros yr hinsawdd a newid ymddygiad tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Y weledigaeth ydi y bydd GwyrddNi yn gynllun arloesol sy'n profi mai'r lle gorau i weithredu ydi'n lleol, o fewn y cymunedau, er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ychwanegodd ei bod eisoes wedi siarad â nifer o bobl a chwmniau lleol ac y bydd yn parhau i wneud hynny cyn mynd ati i drefnu cyfarfod/ydd mwy ffurfiol i weld beth fyddai dymuniad pobl leol yn Llanberis a Nantperis. Dywedodd y byddai'n cadw cysylltiad â'r Cyngor ac roedd yn awyddus i aelodau unigol ei chyfarfod i drafod unrhyw syniadau oedd ganddynt.

Dywedwyd wrthi y byddai croeso iddi ddod yn ôl eto i gyfarfod y Cyngor a dymunwyd iddi lwyddiant yn y gwaith.

**1. PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Iwan Harding, Claudia O'Donnell. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:** Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:** Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, 14eg Gorffennaf 2021, fel rhai cywir.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:** ***1. Cae Chwarae Ger y Llyn:*** Roedd yr offer newydd a gwblhawyd cyn gwyliau'r haf yn hynod o boblogaidd ac mae'r ffensys yn barod i'w tynnu oddi yno a'r glaswellt wedi tyfu. Adroddodd y Clerc iddo drefnu i dynnu darn o goedyn rhydd o offer arall a fe drwsiwyd y trên bach. Penderfynwyd fod angen adnewyddu honno a gofynwyd i'r Clerc holi am brisiau i weld a ellir gwneud hynny yn y flwyddyn ariannol bresennol.
***2. Cofeb y Chwarelwyr:*** Nid oedd dim pellach i'w adrodd. Penderfynwyd y bydd angen symud ymlaen a gwahodd pobl ychwanegol i weithio ar y cynllun.
***3. Parcio Dros Nos – Maes Padarn:*** Siomedig oedd yr ateb a gafwyd oddi wrth Cyngot Gwynedd (CG). Gofynnwyd i'r Clerc ail gysylltu ac anfon gair hefyd at gwmni Adra (Tai) Cyfyngedig.
***4. Mynydd Gwefru:*** Bu nifer o gyfarfodydd yn ddiweddar i drafod dyfodol Mynydd Gwefru. Mae'r cwmni'n ystyried nifer o gynlluniau ar gyfer y safle ar ôl dymchwel yr adeilad. Mae'n amlwg fod y cwmni'n awyddus i gyflwyno cais cynllunio i'w ddymchwel cyn gynted â phosib, ond cyn gwneud hynny bydd angen penderfynu ar sut i ddatblygu'r safle. Mae bras gynlluniau sy'n cynnwys maes parcio eang a lle i drefnu 'digwyddiadau' ohonno ar y gweill. Mynegwyd yn glir fod y Cyngor hwn yn erbyn lleoli digwyddiadau mawr niferus ar y safle, yn enwedig gan fod CG bellach hefyd yn teimlo fel y Cyngor hwn fod angen lleoli'r rhain ymhellach o ganol y pentref a chartrefi lleol.

Mae KMJ yn awyddus i weld offer campfa awyr agored a thrac beics (pump-track) yn ogystal, tra mae eraill am weld incwm yn cael ei gynhyrchu o'r safle i'w fuddsoddi yn y pentref (a chymunedau eraill). Rhybuddiwyd y byddai maes parcio yn mynd ac incwm o feysydd CG a maes parcio Y Ganolfan.

Mynegwyd fod peth pryder nad oes neb yn berffaith siwr o hanes y safle, mae cwmni Engie, y perchennog, yn awyddus i drafod a cheisio cefnogaeth i'w gynlluniau, ond gan mai rhodd i'r ardal oedd yr adeilad yn wreiddiol ac nad oes neb lleol erioed wedi cael llais yn ei reolaeth mae peth aniddigrwydd y collir y cyfle eto i ddod a budd lleol i'r fro. Awgrymwyd na ddylid eistedd yn ôl a gadael i'r perchennog wneud fel y myn. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau pellach.
***5. Cae Pêl-droed UEFA:*** Er mwyn sicrhau fod y cae'n cael ei drwsio yn fuan a gweld yn union faint o waith sydd angen ei wneud rhoddwyd caniatad i'r Clerc gysylltu â chwmni Replay Maintenance Ltd o ymyl Grantham yn sir Lincoln. Y gobaith ydi cael pris gan y cwmni i weld a ellir bwrw ymlaen eleni i drwsio'r cae, ond os na fydd hynny'n bosibl sicrhau arian o'r gyllideb neu ffynonellau eraill i wneud hynny y flwyddyn nesa.
***6. Ras Nofio:*** Ar ôl ymgynghori ar ebost â'r aelodau penderfynwyd o fwyafrif bychan caniatau i'r ras nofio *Love, Swim, Run* fynd yn ei blaen ym mis Hydref er bod pob un o'r digwyddiadau arall wedi eu gwrthod. Gwnaed hyn oherwydd awydd swyddogion CG i ddefnyddio'r ras yma i weld sut i reoli digwyddiadau'n well.

**5 MATERION ERAILL**
***1. Gyrru ar yr A4086, Nantperis:***
Mynegwyd pryder gan HS fod yna yrru anghyfrifol trwy bentref Nantperis. Ar fwy nag un achlysur wrth ymweld â'r Fynwent, a bod yn bresennol mewn angladd, roedd wedi gweld ceir yn gyrru, trwy lwc ni chafwyd damwain, ond roedd yn agos! Wedi trafod penderfynwyd gweld a ellid rhoi arwyddion ar y ffordd i rybuddio gyrrwyr pan fydd angladd. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.

Yn ogystal trafodwyd a oedd rhywbeth arall y gellid ei wneud i dawelu ac arafu'r drafnidiaeth trwy'r pentref ac yn Nant Uchaf.
***2. Mynwent yr Eglwys:*** Mewn trafodaeth ar gyfraniad y Cyngor i dorri gwair mynwent yr Eglwys yn Nantperis bu peth anghytuno ynglŷn â'r drefn. Penderfynwyd dal at y drefn bresennol o dorri'r glaswellt dwy waith y flwyddyn gyda'r Clerc yn trefnu i'r ymgymerwr wneud y gwaith. Roedd y torriad yn hwyrach nag arfer eleni oherwydd gwaeledd. Cafwyd gair o ddiolch gan swyddogion Eglwys y Nant am y gwaith.

**6 GOHEBIAETH:**
***1. CG - Ardal Ni 2035:*** Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ynglŷn â'r cywaith '*Ardal Ni 2035*'. Mae'r Cyngor yn ystyried 13 o ardaloedd (Llanberis yn eu plith) yng Ngwynedd lle mae'n bwriadu cynnal sgyrsiau gyda grwpiau a phobl leol am gryfderau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau. Mae'n gobeithio y bydd y trafodaethau yma yn arwain, maes o law, at gynnig cymorth i'r ardaloedd ac adnabod a gwireddu yr hyn sy'n bwysig i'r trigolion. Bydd y materion hynny yn cael sylw wedyn yn y 10 i 15 mlynedd nesaf er mwyn gwella'r ardal yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwyllianol. Mae'r gwaith yn dechrau gyda chyfraniad y gwahanol gynghorau.

Dosbarthwyd y taflenni gwybodaeth a anfonwyd at y Clerc ar e-bost rhyw wythnos cyn y cyfarfod, er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau roi ystyriaeth ymlaen llaw a chwtogi'r drafodaeth. Dyma gyfle i ddweud beth ym marn y Cyngor hwn sy'n dda am yr ardal hon a'r hyn a ystyrir ddim cystal. Gofynnwyd am bump awgrym ar gyfer pob adran.

Wedi trafodaeth daethpwyd i'r penderfyniad fod ardal Llanberis a'r Nant yn dda o safbwynt:

- ardal ddiogel,
- ardal Gymreig,
- ardal gymunedol braf,
- ardal ddymunol o ran tirwedd, golygfeydd a natur,
- ardal ag ynddi ysgol dda.

Wedyn rhestrwyd y pethau llai dymunol am yr ardal:

- gor-dwristiaeth,
- problemau parcio a gor yrru,
- tai yn eithriadol o ddrud ac allan o gyrraedd poced pobl ifanc,
- cludiant cyhoeddus symol,
- golwg flêr ac anniben mewn mannau.

Wedyn gofynnwyd i'r Cyngor ystyried beth fyddai ei angen i sicrhau ein bod yn byw mewn ardal ddelfrydol yn 2035. Dyma'n fras y dymuniadau:

- Marchnad dai wedi ei rheoli i sicrhau bod y rhai a fagwyd yma yn medru parhau i fyw yma os mai dyna yw eu dymuniad
- Gwell trefn ar dwristiaeth a'r hyn a ddaw yn ei sgil fel parcio a sbwriel, a lle byddai'r diwydiant yn llawer mwy Cymreig, yn gyflogwr gwell ac yn cynnig swyddi da i bobl leol
- Ardal Gymreig, lle byddai mewnfudwyr am ddysgu yr iaith Gymraeg a bod yn rhan o gymuned fywiog ddwyieithog ac ymwelwyr yn parchu yr iaith a'r traddodiadau
- Cael gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a rhesymol a fyddai'n ystyried yr amgylchedd.

**7 CYNLLUNIO:** Dim ceisiadau

**8 Y FYNWENT a LLWYBRAU:** Cyflwynwyd Llyfr Y Fynwent am y flwyddyn i ddangos ei fod yn gyfredol.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## 17eg Awst 2021

**Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod i drafod y gwaith arferol sy'n mynd ymlaen a bod aelodau o'r pwyllgor wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r ICCM ynglŷn â materion yn ymwneud â'r archwiliad o'r cerrig beddi yn y ddwy fynwent.

Adroddwyd fod cais wedi'i dderbyn oddi tan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a bod llythyr wedi'i dderbyn gan Elliw Griffith yn rhoi sylwadau am y drefn a ddefnyddiwyd a'i bod o'r farn nad yw pobl wedi cael digon o amser i ymdrin â'r sefyllfa.

Nodwyd na fydd y system ddigidol yn cael ei lansio hyd nes bydd y placiau yn nodi'r ardaloedd yn y fynwent wedi eu gosod.

**Y Pwyllgor Hamdden**
Adroddwyd eu bod wedi cyfarfod yn y Parc Sglefrio ac wedi canolbwyntio ar adroddiad asesiad risg ar y cae chwarae a bod gwaith sydd angen ei wneud wedi ei adnabod.

Wedi derbyn amcangyfrif o'r gost am giat ar gyfer cae chwarae Dolafon – ac angen gwirio fod y maint a'r math yn gywir cyn archebu.

Nodwyd fod cae chwarae Allt Goch yn daclus a diolchwyd i'r torrwr gwair am ei waith.

**Y Pwyllgor Bwyd**
Adroddwyd fod y cynllun bwyd yn parhau ac ein bod wedi cyfarfod â chriw Tyddyn Teg ar gyfer dosbarthu bocsys llysiau. Mae hyn yn gynllun peilot rhwng Tyddyn Teg, Prifysgol Gorllewin Lloegr a'r Cyngor.

**Ceisiadau Cynllunio:**
**'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:**
(a) Ail-leoli arwydd goleuedig, Maes Carafanau Twll Y Clawdd, Llanrug.
(b) Lleoli dau ddosbarth symudol ar iard gefn Ysgol Brynrefail er mwyn darparu 3 ystafell ddosbarth ychwanegol am gyfnod o 5 mlynedd.

**Codi tŷ deulawr 2 lofft, Plot 7, Ystad Minffordd, Llanrug**
Mynegwyd pryder am ddiogelwch a chyflwr y tir oddi dano

---



# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 7fed Medi 2021

**Cyfethol a Chroeso:** Rhoddwyd croeso arbennig i Ynyr Parry ar sedd wâg Penisarwaun. Yn enedigol o Ddeiniolen, ond bellach wedi ymgartrefu gyda'i wraig a'u merch fach ym Mro Eglwys. Pob dymuniad da iddo wrth ymgymryd â'r gwaith yma.

**Cofnodion Cyfarfod 6 Mehefin 2021:**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r cofnodion:**
**Mainc Clwt y Bont:** Derbyniwyd pris o £210 gan Fenter Fachwen. Penderfynwyd derbyn ac archebu'r fainc.
**Lôn Bethel i Lanrug:** Nodwyd fod y lôn wedi cael wyneb o darmac, a gobeithio bydd y llinellau gwyn yn cael eu peintio yn y dyfodol agos.

**Gohebiaethau a Materion Eraill:**
**Graffiti Tŷ Elidir:** Derbyniwyd llythyr yn datgan fod y graffiti a ddyluniwyd gan Andy Birch ac Ieuenctid Deiniolen, sydd ynghlwm â hanes yr ardal a Bro Llechi wedi cael ei ganiatau ar ochr wal Tŷ Elidir ym mhentref Deiniolen. Mae hyn mewn cytundeb â'r Cyngor Sir a Menter Fachwen sydd ar hyn o bryd yn llogi'r adeilad. Ar ddiwedd y cyfnod llogi, efallai bydd rhaid, fel rhan o'r cytundeb, ail beintio'r wal yn ôl i'r gwreiddiol.

**70 Mlynedd Parc Cenedlaethol Eryri:** I ddathlu'r achlysur, mae'r Parc yn cynnig pecyn o 70 o goed i'w plannu yn yr ardal i bob Cyngor Cymuned a thref yn Eryri. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod ysgolion yr ardal yn gweithio tuag at greu gerddi ayyb, a phenderfynwyd gyrru i ofyn am gysylltu â'r 4 ysgol gynradd yn yr ardal, lle gallent gyd weithio i'w plannu.

**Racca i Penisarwaun:** Derbyniwyd llythyr gan y cynghorydd Sirol am gefnogaeth i ostwng y cyflymder ar y lonydd i'r pentref. 50 milltir yr awr yw'r cyfyngiad ar yr A4244, ond caniateir 60 milltir yr awr ar lonydd yn arwain ohoni at y pentref. Mae'r Cyngor yn croesawu hyn ac yn ei gefnogi ar y mater.

**Ceisiadau Cynllunio:**
**C21/02670/18/DT: Garages adjoining The Nook Brynrefail**
Cais i ddymchwel modurdai presennol a chodi tŷ deulawr yn ei le.
**C21/0530/18/LL: Gwynfryn, Carreg y Garth, Rhiwlas**
Cais ar gyfer dymchwel adeilad stiwdio a chodi tŷ Newydd yn ei le.
**C21/0812/18/DT: Llechwedd, Deiniolen**
Cais ar gyfer codi estyniad unllawr.
**C21/0817/18/LL: Llys Gwynt Seion**
Adeiladu sied amaethyddol.
**C20/1062/18/LL: Caeau Uchaf, Porth y Gogledd, Deiniolen**
Addasu adeilad allanol i uned wyliau.
**C21/0119/18/LL: Llwyn Celyn, Clwt y Bont**
Dymchwel y lolfa haul a sied bresennol a chodi deulawr yn eu lle.
**C21/0860/18/YA: Glamrhyd, Pentir**
Cais am ganiatad, rhybudd o flaen llaw ar gyfer agor mynediad cerbydol i dir amaethyddol.
**Llwybrau:**
**Giât Marchlyn:** Derbyniwyd llythyr sydd eisoes wedi ei yrru at First Hydro ynglŷn â'r giât bresennol sydd yn hollol anaddas ar gyfer mynediad i'r cyhoedd i gerdded mewn ardal boblogaidd. Rydym yn cefnogi'r cais am giât newydd addas ar gyfer pawb
**Llwybr 137:** Angen giât ochr arall i'r llwybr ger Pandy.
**Llwybr Corlan y Bont:** Bydd contractwyr yn adnewyddu'r ffens ddiffygiol ger y llwybr yn y dyfodol agos.
**Llwybr Rhif 6:** Uned Cefn Gwlad yn archwilio o bryd i'w gilydd, ar ddiogelwch y llechi sy'n disgyn i'r llwybr oddi ar do'r capel.
**Llwybr Carreg y Gath, Rhiwlas:** Derbyniwyd llythyr a yrrwyd ymlaen i'r Cyngor ynglŷn ag arall gyfeirio'r llwybr yma gan breswylwyr Gwynfryn. Yn eu llythyr mae pryder nad oes arwyddion ynghyd â'r ffaith fod y mapiau'n anghywir. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol, ac mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn yn barod iddynt gywiro hyn.

ECO'r Wyddfa www.ecorwyddfa.co.uk



# Ar ben arall i'r lein

O'r diwedd, mae pethau'n dechrau dod at eu hunain. Rydym fel clwb wedi cyfarfod i drafod a llunio tipyn o gynlluniau at y dyfodol. Bu cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr ar 22ain Medi yn Y Ganolfan yn Llanberis: wel, dyna le handi a chyfforddus, diolch i bawb a wnaeth hyn yn bosib. Efallai cawn barhau â'n cyfarfodydd yno. Fel y gallwch ddychmygu, roedd tipyn o faterion i ymdrin â hwy, yn enwedig gan ein bod wedi methu ag ymgynnull ers 3 Chwefror 2020.

Gyda'r cyfarfod am y tro cyntaf yn Llanberis, roedd braidd yn eironig fod un mater a drafodwyd yn ymwneud â thrwydded bysgota gyda chwch ar ran uchaf Padarn, sydd dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn dal trwydded gyda'r Cyngor ers 1986. Y cyn berchnogion oedd Dŵr Cymru, a bryd hynny roedd gan y Gymdeithas brydles hir dymor ar hawliau pysgota a'r defnydd o unrhyw gwch ar y Llyn; ac yn ogystal, roedd cymal i ail ganiatau'r brydles unwaith eto i'r Gymdeithas. Dyna i chi esiampl dda o rai yn y gorffennol wedi gallu gweld dros y gorwel fel petai. Felly yn ôl at 1986, dyma'r amser ble roedd gofyn cynyddol am fwy o gyfleoedd byw'n iach, a rhan o hyn oedd gwneud mwy o ddefnydd o hamddena yng nghefn gwlad, yn cynnwys wrth gwrs hwylio, canwio ac ati. Wel yn anffodus i'r cynllunwyr hyn, ac yn ffodus i'r Gymdeithas, doedd dim posib caniatau hyn ar Lyn Padarn. Mwy na thebyg, dybiwn i, nid oedd yr awdurdod dŵr eisiau'r broblem fawr o fod ynghlwm â rhedeg y fath beth.

Er mwyn dod dros hyn, gofynwyd yn gyntaf a fuasai'r clwb yn cytuno i ddod â'r brydles i ben er mwyn hwyluso'r holl beth. Fel y gallwch ddychmygu, yr ateb oedd 'Na'. Ond roedd mwy iddi na hynny gan fod y brydles hefyd yn cynnwys hawliau pysgota eang a thir yn ffinio afonydd Rhythallt a Seiont. Un rhan o'r tiroedd cynwysedig yw safle'r Ddeorfa yn Crawia. Wel dyma gyfle, ein cynnig oedd, dod â'r brydles i ben ar yr amod fod yr holl hawliau heblaw rhan o wyneb Llyn Padarn yn cael ei werthu i'r Gymdeithas. A do, fe gytunwyd i hyn am bris rhesymol dros ben. Wel dyna ddathlu! Prynwyr rhan o wyneb y Llyn oedd Cyngor Gwynedd. Ond nid dyma oedd ei diwedd hi; amod arall y mynnwyd ei gynnwys gan y Gymdeithas oedd nad oedd yr un cwch nac unrhyw ddefnydd hamdden o gwbl i fod ar hanner wyneb y Llyn, ochr Y Fachwen, o Graig y Fulfran i Ben-llyn. Dyma gyfamod sy'n dal i fodoli: sgwn i a fydd rhaid ei orfodi yn y dyfodol agos? Wel, dyna halibalw fyddai hynny. Gobeithio cawn glywed yn o fuan gan y Cyngor beth yw ei ddymuniadau ar gyfer y drwydded newydd; ond o ran hynny, mae'r trafodaethau wedi bod yn mynd ymlaen ers 2012! Ac ia, cofiwch fod hawliau 95% o'r glannau ym mherchnogaeth y Clwb – rhag i rai anghofio hyn ynde!

Yn dilyn gallu cael cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr, mae Cyfarfod Blynyddol wedi ei drefnu yn yr Institiwt, Caernarfon ar 9 Rhagfyr, wedi dwy flynedd o seibiant. Cewch olwg ar yr agenda yn ogystal ag adroddiad y Cadeirydd



**'Dr Robin Parry, Jon Beer a minnau ym Mhenllyn gyda fan-gampio enwog Jon yn y cefndir'**



**Brithyll Brown 6 pwys – Dywarchen. Ioan Evans**



**Brithyll Brown 4 pwys – Seiont. John Thomas**

yn rhifyn Rhagfyr.

Ydi, mae wedi bod yn eithriadol o brysur o gwmpas y lle dros fisoedd yr haf, ac mae'n amlwg fod cael safle i osod tent wedi bod yn anodd dros ben, yn enwedig i rywun oedd wedi gosod un ar lan Llyn Padarn. Y



**Brithyll Brown 5 pwys – Llyn Padarn. Paul Mariotti**



**Un o dorgochiaid Jon Beer**

broblem fawr oedd ei bod wedi ei gosod ger Rheilffordd y Llyn, ychydig lathenni'n unig o'r lein ei hun. Mynnwch olwg ar fforwm Cymunedol Llanberis am sylwad ardderchog Ian Hughes. Ar y llaw arall, a throi unwaith eto at hen geiniog yr ymwelwyr, mae wedi bod yn eithriadol o ffeind i ni fel Clwb, yn enwedig gyda'n llety hunan gynhaliol, sef Melin y Cim, Pontllyfni sydd wedi bod bron yn llawn ar hyd y flwyddyn. Mae'r adeilad yma o'r diwedd yn gwireddu ein gweledigaeth o ddenu pysgotwyr i fwynhau'r hyn sydd gan y fro i'w gynnig o ran pysgota. Oes, mae cryn dipyn wedi cymryd y cyfle i bysgota eleni; mae rhai o'n gwesteion wedi cael nosweithiau ardderchog gyda'r gwyniaid ar y rhan o'r Llyfni a adnabyddir fel Pyllau Lan Môr. Oes, mae cryn dipyn o ddefnydd ar yr hen badell wedi bod yn mynd ymlaen yn yr hen felin. Mae nifer o syniadau i wneud mwy o ddefnydd o asedau'r Gymdeithas ac i anelu at y farchnad ymwelwyr a cheisio addasu hen adeiladau ac ati sydd dan ein perchnogaeth. Yn anffodus araf iawn ydi ceisio symud ymlaen gyda hyn. Yn y pen draw, gobeithio ceir y maen i'r wal ac y gellir dechrau cyflogi'n lleol nid yn unig yn y maes twristiaeth ond yn y byd magu pysgod a phrosiectau eraill i wneud â'n heiddo. Ond wrth gwrs, dwi wedi bod yn pregethu am hyn ers cryn amser, a does neb a fyddai'n medru ein helpu i roi hwb ymlaen i'r holl gynllun yn cymryd unrhyw sylw.

Bu digon o gwyno am y misoedd sych dros yr haf. Erbyn hyn, mae'r cwyno am ormod o ddŵr o gwmpas y lle, ond wrth gwrs mae hyn yn nefoedd i ni fel 'sgotwrs. Ond er yr holl lifogydd, ychydig iawn sy'n manteisio ar y cyfle i drio am yr eog. Ar adegau, mae'r llefydd parcio poblogaidd fel Crawia a Phontrug yg: o bosib, dyma ganlyniad yr is-ddeddfau amhoblogaidd a gyflwynwyd dros flwyddyn ôl i'w gwneud yn anghyfreithlon i'w cadw at y badell. Dwi ond wedi clywed am un eog a ddaeth i'r rhwyd yn gyfreithlon, sef un oddeutu 5 pwys i Ian Williams, Llanberis; a do, fe'i rhoddwyd yn ôl yn yr afon yn ddiogel (werth ei weld ar Seiont Gwyrfai a Llyfni facebook). Does dim dwywaith fod y deddfau hyn wedi cael effaith negyddol ar bysgota'r eog dros Gymru gyfan: y rheswm a roddwyd drostynt oedd bod prinder yn y stoc eogiaid. Ac wrth gwrs, y sgotwr sy'n cael y rhan fwyaf o'r bai; does dim cyfeiriad o gwbl at y potsio sydd fel epidemig trwy'r wlad. Yn anffodus, fel y cyfeiriais o'r blaen, mae ein hymdrechion cynyddol i gael rhyw drefn ar hyn yn disgyn ar glustiau byddar y Senedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r heddlu. Oes gan unrhyw un syniad sut i ddatrys y broblem warthus yma? A chyn i neb ofyn: ydi, mae ein haelod lleol yn trio ei gorau; mae'r atebion y mae hithau'n eu cael yn eithriadol o negyddol. Un o'r rhesymau fod sefyllfa o'r fath yn cael ei hanwybyddu yw bod prinder arian yn cael effaith ar y gwaith o reoli tor-cyfraith. Ond dyma gefais o lygaid un ffynnon: mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cofnodi £20m o dan-wariant yn ddiweddar. Dim arian sgwn i!

O droi oddi wrth siomedigaeth byd yr eogiaid, mae cyflwr ein gwyniadau yn eithriadol o dda, cynydd blynyddol ac eleni mae wedi bod yn ardderchog. Sgota'r gwyniaid, pa bryd? Wel wrth gwrs, o dwyllnos i oriau man y bore; dyna o bosib pam nad oes neb ar faes parcio Crawia yn ystod y dydd. Fel mae hi'n tywyllu mae pawb yn troi allan; dyma pam nad ydw i'n gweld fawr o neb o gwmpas, gan nad ydw i wedi bod yn aderyn y nos yn dilyn y llaw-driniaeth. Tymor nesaf mi fydd pethau'n wahanol!

Yn ogystal â'r gwyniadau, mae'r brithyll brown wedi bod yn eithriadol ar y rhan fwyaf o'n dyfroedd. Rhai sy'n werth cyfeirio atynt yw'r un 4 pwys i John Thomas, Deiniolen o'r Seiont, 6 pwys i Ioan Evans, Caernarfon o Dywarchen, a 5 pwys i Paul Mariotti o Lyn Padarn ar docyn dyddiol.

Mae'n bleser gallu dweud fod cryn alw gan gwmniau ffilmio a hefyd gylchgronau poblogaidd am ddefnydd o lecynnau delfrydol sy'n ein meddiant at greu eu rhaglenni. Mae cryn alw wedi bod dros y misoedd diwethaf am ddefnyddio rhan o Lyn y Dywarchen, ond ar y funud Llyn Nantlle a'r lanfa newydd yw'r atyniad. Gwyliwch 'Priodas Pum Mil' yn o fuan i gael blas o'r lle hyfryd yma. Ac o fyd y cylchgronau, fe gawsom ymweliad gan Jon Beer, un o gyfranwyr mwyaf poblogaidd y byd pysgodfaol. Mae ei erthyglau ar ddyfroedd yr Alban, Iwerydd a Lloegr werth eu darllen. Wel, ar Fedi 19 fe flasodd sgota Llyn Nantlle yng nghwmni Harry Wyn Owen, Talysarn; a'r diwrnod canlynol cefais ei gwmni ar Lyn Padarn, a do fe gafodd dorgoch, pysgodyn sydd wedi ei ddenu i Ardal y Llynnoedd a drwy'r Alban. A dyna ni wedi dod i Lanberis. Bydd erthyglau'n dilyn yn y cylchgrawn *Trout & Salmon* yn y flwyddyn newydd. Abwyd i ddenu mwy o ymwelwyr yma tybed!

**Huw Price Hughes**

**Yn dilyn llwyddiant yr Wythnos Dathlu Dysgu ar Radio Cymru a'r brwdfrydedd fu ar ddiwrnod Sumae Shwmai ar 15ed Hydref, mae Rob Evans yn annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr drwy'r flwyddyn – ymhle bynnag y bônt.**

# Cryfhau ein Cymunedau

Yn dilyn llwyddiant yr Wythnos Dathlu Dysgu ar Radio Cymru a'r brwdfrydedd fu ar ddiwrnod Sumae Shwmai ar 15ed Hydref, mae Rob Evans yn annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr drwy'r flwyddyn - ymhle bynnag y bônt.

Cryfhau ein Cymunedau

Mae ein hiaith ni dan fygythiad o hyd ac er bod ein hysgolion Cymraeg yn gwneud gwaith rhagorol mae'r mewnlifiad presennol yn achosi trafferthion i'n pobl ifanc. Os nad ydyn nhw'n gallu cael gwaith sydd yn talu'n ddigon da i brynu tŷ yng Nghymru, dros y ffin bydden nhw'n mynd.

Ond mae gobaith. Pob blwyddyn mae miloedd o oedolion yn cofrestru i ddysgu Cymraeg yn ein dosbarthiadau nos – hyd yn oed yng nghyfnod y pandemig! Mae pob un ohonyn nhw angen ein cefnogaeth. Maen nhw angen pobl i siarad efo nhw yn Gymraeg. Bydd hynny yn codi eu hyder yn yr iaith ac yn agor eu llygaid i'n cymuned.

Ym mis Mawrth llynedd pan oedden ni'n mynd i mewn i'r Cyfnod Clo cyntaf roeddwn i wir yn poeni sut y byddaf yn ymdopi wrth fod yn y tŷ trwy'r amser. Dw i ar fy ngorau pan dw i'n brysur ac mae bod yn segur fel rhyw fath o hunllef. Beth i'w wneud? Mi wnes i benderfynu ddechrau cylchlythyr i ddysgwyr, un lle bydden nhw'n ysgrifennu erthyglau a bydd y cylchgrawn yn mynd at ddysgwyr eraill. Roeddwn i wedi clywed am grŵp o ddysgwyr oedd yn cyfarfod yn y Three Cliffs Cafe ar Gŵyr ac wedi mynd i siarad efo nhw cyn y pandemig. Tybed fydden nhw'n fodlon helpu? Cysylltais â dysgwyr eraill roeddwn yn adnabod a chredwch neu beidio roedd gen i ddigon o erthyglau i gael y rhifyn gyntaf allan ar Ebrill y 1af. Ar hyn o bryd dw i'n brysur yn gosod y deunawfed rhifyn, un sydd yn debyg o gynnwys tua phymtheg o dudalennau. Dw i wedi gweld sgiliau ysgrifennu a hyder y dysgwyr yn codi yn ystod yr amser yna a dw i wir yn mwynhau darllen eu herthyglau.

Y Wennol yw enw'r cylchlythyr ac, wrth ei gyhoeddi, dw i wedi dod ar draws grŵp o ddysgwyr yn ardal Pen y Bont sydd wedi dechrau Cymdeithas Hanes Bro Ogwr ac mae'n mynd o nerth i nerth ers 2014. Mae hynny'n gyfraniad sylweddol i'r gymuned Gymraeg, a dysgwyr sydd yn gyfrifol. Ia, dysgwyr yn sefydlu cymdeithas Gymraeg yn eu hardal, ac nid dim ond iddyn nhw ond i'r gymuned gyfan.

Onid dyma'r math o frwdfrydedd 'dyn ni angen?

A oes rheswm pam na all hyn ddigwydd yn eich ardal chi?

Llynedd mi wnaeth 9,000 o oedolion gofrestru i ddysgu'r iaith ond nid yw'r ffigwr yna yn golygu dim byd os nad ydyn nhw'n cael eu ffordd i mewn i'n cymunedau. Gwnewch bwynt o ddod i adnabod eich tiwtor lleol, bydd eich Menter Iaith yn gallu eich helpu. Bydd hyn ddim mor hawdd ag arfer gan fod y cyrsiau ar Zoom ond wrth drafod â'r tiwtor efallai allech chi gael chwarter awr ar ddiwedd y dosbarth i gyflwyno eich cymdeithas leol neu drefnu taith gerdded a.y.b. Bydd gwybod bod cyfleoedd i siarad Cymraeg ar gael yn eu hardaloedd yn gwneud llawer o les iddyn nhw.

Mae'r system addysg yn gallu dysgu nhw ond chi yw'r rhai sydd yn gallu meithrin nhw!

Hyd yn hyn dw i'n gwybod am ddau grŵp o ddysgwyr sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w cymunedau a dw i'n awyddus i glywed am fwy o esiamplau. Gadewch i mi wybod os oes rhywbeth tebyg wedi digwydd yn eich ardal er mwyn i mi roi cyhoeddusrwydd iddyn nhw.

Does dim byd fel llwyddiant i greu llwyddiant!

Fy nghyfeiriad e-bost yw: bobwennol@ntlworld.com

**Rob Evans**

# Dychweliad 'Wales Away'



Ar ôl dwy flynedd hir iawn o aros, o'r diwedd cafodd cefnogwyr Cymru deithio tramor i'r gêmau pêl-droed ar ddechrau mis Hydref. Fe gafodd y cyhoeddiad ei wneud ychydig o wythnosau yn gynharach felly roedd yr amseru yn berffaith i gefnogwyr Cymru gan ein bod yn chwarae dwy gêm oddi cartref – yn y Weriniaeth Tsiec ac yn Estonia. Er nad oedd yn rhoi llawer o rybudd i'r cefnogwyr wneud trefniadau, fe fentrodd nifer ar y daith gan gynnwys fi, fy nhad a fy mrawd Elgan gan adael Mam adref ar ei phen ei hun (sâl de!). Rhaid cyfaddef roedd y trefnu ychydig yn anoddach na'r arfer gan fod angen ystyried rheolau Covid-19 yn ychwanegol i drefnu popeth arall. Haws gen i a Dad i adael y trefnu i Elgan fel arfer ond mi wnes i helpu ychydig arno y tro hwn gan fod angen gwneud popeth yn weddol sydyn ag amser yn brin. Chwarae teg mae Elgan wastad *'on the ball'* pan mae'n dod i drefnu teithiau 'Wales Away' felly gwell i mi roi ychydig o glod iddo. Y peth pwysicaf oll oedd ein bod o'r diwedd yn cael teithio allan o'r wlad! Er cymaint dwi wrth fy modd efo Cymru, roedd hi'n braf cael teithio dramor unwaith eto.

Roedd rhan gyntaf y trip yn Prague yn y Weriniaeth Tsiec ble roedd y gêm yn cael ei chwarae nos Wener 8fed Hydref. Roedd Cymru yn gwybod y byddai hon yn gêm anodd yn erbyn tîm cryf iawn ac yn wir dyna beth oedd hi. Anhygoel oedd y teimlad o gael canu'r anthem ar dir diarth am y tro cyntaf mewn dwy flynedd ac yn sicr roedd Y Wal Goch wedi troi fyny. Cymru gafodd y cychwyn gorau wrth i Aaron Ramsey ein rhoi ar y blaen yn dilyn hanner awr gyffrous ofnadwy gyda'r ddau dîm yn llawn egni. Braf oedd hi i weld Aaron Ramsey yn ôl mewn crys Cymru ac yn chwarae mor wych. Yn anffodus ni pharodd y fantais yn hir wrth i'r Weriniaeth Tsiec unioni'r sgôr mewn llai na dau funud. Yna ar gychwyn yr ail hanner fe roddodd Cymru gôl flêr i ffwrdd gyda Danny Ward yn methu rheoli pàs yn ôl gan Aaron Ramsey a welodd y bêl felly yn taro rhwyd ei hun. Roedd yn rhaid i Gymru fynd amdani os oeddent am adael y Weriniaeth Tsiec gydag unrhyw beth ac yn bendant mi roeddent yn rhoi pwysau ar y tîm cartref ac fe dalodd hynny gyda Daniel James yn ei gwneud hi'n gyfartal unwaith eto rhwng y ddau dîm. Fe greodd Cymru nifer o gyfleoedd ond yn anffodus roedd rhaid bodloni gyda phwynt. Er bod pwynt yn dda yn erbyn tîm cryf fel y Weriniaeth Tsiec mae rhywun efallai yn teimlo y byddai Cymru wedi gallu cipio'r tri phwynt o ystyried pa mor dda oedd y perfformiad. Digon o bwyntiau positif yn bendant i fynd ymlaen gyda nhw i Estonia ar gyfer y gêm nesaf.






Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk


Nos Lun, 11eg Hydref roedd Cymru yn wynebu Estonia yn Tallinn. Yn dilyn perfformiad mor dda nos Wener yn Prague roedd disgwyliadau'r Cymry yn uchel ar gyfer y gêm hon. Er bod Cymru wedi gadael Estonia gyda thri phwynt ac wedi cael y fuddugoliaeth roedd hi'n anodd peidio teimlo braidd yn siomedig gyda'r sgôr. Gyda Kieffer Moore yn sgorio o fewn chwarter awr roedd hi'n gwneud synnwyr fod cefnogwyr Cymru wedi cyffroi ac yn disgwyl mwy o goliau yn ystod y gêm. Yn siomedig, dim ond y gôl honno gan Kieffer Moore gwelsom am y 90 munud. Roedd y tîm yn edrych yn hollol wahanol i'r tîm oedd ar y cae yn erbyn y Weriniaeth Tsiec dim ond ychydig o nosweithiau ynghynt. Yn bendant y peth pwysicaf oedd bod Cymru wedi cael y fuddugoliaeth ond roedd hi yn gêm ddi-fflach. Mi fyddai Estonia wedi gallu cipio gêm gyfartal wrth iddyn nhw greu sawl cyfle ond yn lwcus i Gymru doedden nhw ddim yn rhy dda am daro'r targed. Roedd Cymru yn haeddu'r fuddugoliaeth ond fe allai rhywun ddadlau fod Estonia yn anlwcus o beidio cael gêm gyfartal.

Cyn y ddwy gêm mi wnes i ddweud y byddai pedwar pwynt allan o chwech yn llwyddiannus i Gymru, felly ar y cyfan yn hapus iawn gyda hynny yn dychwelyd adref. Mae'r ail safle dal yn ein dwylo ni gan fod y Weriniaeth Tsiec ar hyn o bryd yn yr ail safle gyda 11 o bwyntiau sef yr un faint â Chymru, ond mae Cymru wedi chwarae un gêm yn llai. Mae'r freuddwyd o gyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar yn 2022 dal yn fyw felly.

# Apêl am Gyhoeddusrwydd

Rydym yn ymwybodol bellach fod y strwythur cynghreiriol bêl-droed yn lleol wedi newid eleni. Bellach mae rhyw 10 gêm gynghrair wedi cymryd lle – gan gynnwys darbi Dyffryn Peris – a rowndiau rhagbrofol y prif dlysau cenedlaethol. Amrywiol fu canlyniadau ein tri thîm Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr. Ambell i berfformiad da yn y cwpanau. Sut mae'r timau yma yn teimlo am eu gosod yn y gwahanol haenau. A gawsant gam? A yw canlyniadau yn cyfiawnhau hynny? Beth yw barn y cefnogwyr selog?

Yr wyf yn llunio'r erthygl yma gan fod nifer wedi gofyn i mi sut mae'r timau lleol yn gwneud. Mae'r *Daily Post* dan y lach go iawn – fel y *C.and D.,* Lerpwl, Everton., Man U, Wrecsam a cholofn fer unwaith yr wythnos am Uwch Gynghrair Cymru yw cyfraniad '*your No. 1 local paper*' i bêl-droed y gogledd. Ni cheir hyd yn oed ganlyniadau'r gêmau neu'r tablau ar fore Llun yn y papur. Ewch ar wefanau'r clybiau, meddai eraill. Iawn, ond nid pawb sydd gan y cysylltiad yma. Neu, Olygydd Chwaraeon pam wyt ti ddim yn rhoi dy bnawn Sadyrnau i fynd i'r gêmau, tra ydym ni yn eistedd yn gyffyrddus yn gwylio gêm gynnar ar Sky/ BT?

Apêl sydd gennyf felly i'r timau pêl-droed bro *Eco'r Wyddfa* o bob oedran i ddefnyddio'r colofnau hyn i adlewyrchu sefyllfa a safon y bêl-droed leol. Gwerthwch, cysylltwch eich hunan i'r bobl leol gan obeithio eu denu draw i wylio gêmau. A oes bosib i'r timau ddynodi un aelod o'u pwyllgorau neu gefnogwr selog i lunio adroddiad byr pob mis gydag ambell lun os yn bosibl i'w gynnwys yn yr Eco. Cofiwch o ran rhifau fod yr Eco bellach â gwerthiant derbyniol yn y fro. Doedd dim byd yn bwysig os nad oedd yn y *C. and D* oedd y drefn o'r blaen. Ble mae cefnogaeth y papur hwnnw bellach? Gobeithio bod Colofnau Chwaraeon yr Eco dros y blynyddoedd wedi adlewyrchu y newid a'r cynnydd mewn nifer o'r campau. Wedi cymaint o flynyddoedd yn y swydd, ydy hi'n deg disgwyl i unigolyn chwilio am stori 'wahanol' bob mis ar ei liwt ei hun. Yma, mewn ardal 'ffwtbol' apeliaf i'r clybiau bellach hefyd wneud eu cyfraniad. Fel hyn gellir defnyddio'r Eco fel cofnod o weithgarwch bro.

# Dion a Charfan Sgiliau Cenedlaethol Nofio Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Dion Edwards, 14 oed o Lanrug sydd wedi ei dderbyn i ymarfer gyda Charfan Sgiliau Cenedlaethol Nofio Cymru. Teithiodd i Abertawe yn ddiweddar i ymarfer gyda rhai o'r nofwyr sydd wedi ennill yn y Gêmau Olympaidd a chafodd gyfarfod â Ben Jarvis ac aelodau eraill o sgwad Cymru.

Mae'r gwaith caled o ymarfer yn bore cyn ysgol gan godi am 5.25 AM wedi talu ei ffordd i Dion. Da iawn ti a phob lwc i ti wrth blymio i dy antur nesaf!




AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

# Hydref Prysur i Hoci



**Mae Clwb Hoci Merched Caernarfon yn ôl ar gae bob tywydd Llanrug gyda dechreuad prysur iawn i'r tymor.**

Yr ifanc sy'n serennu eto eleni, gyda thair o'r clwb yn cael eu derbyn i garfan Gogledd Cymru. Elain Owen a Catrin Beech (dan 16) a Mared Llwyd (dan 18). Llongyfarchiadau!

Mae'r ieuenctid yn parhau i gael profiadau lu fel rhan o'r clwb gyda'r tîm dan 16 yn chwarae pedair gêm gystadleuol tu hwnt mewn twrnamaint ym Mhwllheli. Cyfartal oedd hi yn erbyn Bangor, Eirias a Llanfair Caereinion ond cafwyd goliau gwych gan Elain Owen yn erbyn Pwllheli i'w curo 2 – 0.

A glywsoch chi i gyd y sŵn byddarol o'r cae? Sŵn darpar hyfforddwyr y clwb hoci yn cael chwiban! Bu'r criw dan 16 i gyd ar gwrs "Cyflwyniad i hoci" gan Hoci Cymru ar 13eg Hydref. Roedd Tim Hoare, Swyddog edrych ymlaen at weld y criw yn datblygu eu sgiliau arwain a hyfforddi ar gyfer cynorthwyo gydag ieuenctid y clwb.

Mae'r timau dan 10, dan 12 a dan 14 hefyd wedi cael cyfleoedd arbennig mewn twrnameintiau ym Mhwllheli ag Eirias gyda saith tîm yn cystadlu yn enw'r clwb. Bydd y rownd twrnamaint nesaf ar 7fed Tachwedd.

Mae'r tîm hŷn eisoes wedi chwarae tair gêm, y rhai cyntaf ers mis Mawrth 2019, ac yn teithio'n bell ar eu cyfer. Dechreuwyd y tymor gyda thaith hir a glawog i'r Drenewydd. Er gwaetha'r tywydd daeth y genod adref gyda thri phwynt diolch i goliau Sioned Williams ac Alaw Fôn, a pherfformiad arbennig gan seren y gêm Lois Parry Jones a hithau gyda'i merch 12 wythnos oed ar ochr y cae i'w chefnogi!

Colli oedd hanes Caernarfon yn eu gêmau dilynol yn erbyn Y Trallwng (6 – 0) a Llanfair Caereinion (3 – 0) gyda salwch a gwaith yn golygu tîm anghyflawn i'r ddwy gêm. Er hyn chwaraeodd y genod yn galed gyda Mared Llwyd ac Alaw Fôn yn serennu.

Byddant yn chwarae nesaf gartref yn Llanrug yn erbyn Dinas Bangor ar 6ed Tachwedd. Bydd y genod yn siŵr o werthfawrogi cefnogaeth. Cofiwch ddilyn Clwb Hoci Merched Caernarfon ar y cyfryngau cymdeithasol am y diweddaraf.











ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >